
WWF

ADRODDIAD

CYMRU

2012



Cynaliadwyedd | Cadwraeth | Newid yn yr Hinsawdd

# Beth all Uwchgynhadledd y Ddaear ei Wneud dros Gymru?

Gan Dr. Alan Netherwood a Dr. Andrew Flynn

# STRWYTHUR YR ADRODDIAD

Mae'r adroddiad wedi'i rannu i'r adrannau canlynol:


RHAGAIR 03

1. CYFLWYNIAD 05

2. CRYNODEB GWEITHREDOL 06

3. NEGESEUON AC YSGOGIADAU ALLWEDDOL SY'N DEILLIO O RIO A JOHANNESBURG 08

4. GWEITHGAREDDAU CYMRY YN YR UWCHGYNADLEDDAU AC O'U CWMPAS 09

5. LLINELL AMSER - MAPIO ETIFEDDIAETH YR UWCHGYNADLEDDAU YNG NGHYMRU 11

6. PA WEITHGAREDDAU YNG NGHYMRU SY'N ENGHREIFFTIO RIO A JOHANNESBURG? 17

7. THEMÂU SY'N DOD I'R AMLWG O'R YMCHWIL 19

8. DYHEADAU AR GYFER YR 20 MLYNEDD NESAF 29

9. BETH ALL UWCHGYNHADLEDD Y DDAEAR EI GYFLAWNI I GYMRU? 35

ATODIAD - Y TÎM YMCHWIL 35






# RHAGAIR GAN ANNE MEIKLE PENNAETH WWF CYMRU

Yn Uwchgynhadledd y Ddaear 1992, daeth syniad pwerus yn amlwg ar lwyfan y byd am y tro cyntaf.



Anne Meikle
Pennaeth WWF Cymru

*"Felly eleni, dewch i ni ddefnyddio Rio+20 i ailgynnau'r brwdfrydedd a'r ymrwymiad oedd yn bodoli yn 1992 i greu byd gwell"*

Datblygu cynaliadwy oedd y syniad hwnnw, ac ymunodd y gymdeithas sifil, busnesau, awdurdodau lleol ac undebau llafur â 178 o lywodraethau, oedd i gyd yn cytuno fod angen i **bawb** weithredu fel ein bod yn byw o fewn terfynau amgylcheddol y blaned a'n bod yn sicrhau byd â llai o dlodi ac anghyfiawnder – lle câi buddion eu rhannu'n decach.

Roedd Uwchgynhadledd 1992 yn fan cychwyn tra gwahanol, a arweiniodd at gytundebau byd-eang sy'n dal i fod mewn grym heddiw. Mae'r adroddiad hwn yn datgelu 'edefyn aur' o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru sy'n rhedeg o'r uwchgynhadledd honno yn 1992, trwy greu'r Cynulliad Cenedlaethol (gyda'i ddyletswydd i hybu datblygu cynaliadwy) a chynllun 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' Llywodraeth Cymru (oedd yn cydnabod terfynau i'r defnydd o adnoddau), hyd at y Bil Datblygu Cynaliadwy, a ddisgwylir yn 2013.

Er hynny, yn anffodus mae'r adroddiad hwn hefyd yn dangos ein bod, dros amser, wedi colli rhywfaint o'r brwdfrydedd ynghylch datblygu cynaliadwy a'i fod, i lawer o bobl, wedi llithro i lawr y rhestr blaenoriaethau.

Yn y cyfamser, mae'r byd yn dal i wynebu argyfwng. Rydym yn defnyddio adnoddau'r ddaear yn gynt nag y gallant gael eu hailgyflenwi. Mae hyn yn achosi i brisiau ein tanwydd a'n bwyd godi yma yng Nghymru, ac ar draws y byd mae pobl yn cael trafferth i gael hanfodion fel dŵr yfed glân. Yn y cyfamser, mae rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid yn parhau i brinhau ac nid yw'r byd yn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn effeithiol.

Felly eleni, dewch i ni ddefnyddio Rio+20 i ailgynnau'r brwdfrydedd a'r ymrwymiad oedd yn bodoli yn 1992 i greu byd gwell. I wneud hynny, rhaid i wleidyddion ddilyn arweiniad prif themâu uwchgynhadledd eleni:

1. Tegwch o ran cael adnoddau – felly gadewch i ni roi'r gorau i siarad am gyfiawnder cymdeithasol fel pe bai ar wahân i ddatblygu cynaliadwy.

2. Adeiladu economi werdd. Mae'n rhy hawdd defnyddio'r dirwasgiad i esgusodi ymddygiad a ffyrdd o fyw sy'n arwain at anghyfiawnder, tlodi a difrod i'r amgylchedd. Mae ein ffyniant yn y dyfodol yng Nghymru'n dibynnu ar adnoddau a geir y tu hwnt i'n ffiniau. Gydag adnoddau allweddol yn mynd yn brinnach ac yn ddrytach, bydd ein heconomi'n dioddef os na fyddwn yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon o lawer, ac mae'n amlwg bod sicrhau ein ffyniant ein hunain ar draul pobl a bywyd gwyllt mewn lleoedd eraill yn anghynaliadwy.

Yn 1992, roedd yn glir y byddai'n cymryd hyd oes i gyflawni'r newidiadau rydym eu hangen. Fodd bynnag, ugain mlynedd yn ddiweddarach, rydym mewn perygl o golli'r egni oedd gennym bryd hwnnw i **sicrhau** datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Gadewch i ni wneud yn siŵr mai 2012 fydd y flwyddyn pan fyddwn yn ailddarganfod ein brwdfrydedd i sicrhau Cymru gynaliadwy, gyda Bil Datblygu Cynaliadwy sy'n arwain y byd ac sy'n cryfhau ein dyletswydd bresennol ac yn diffinio'n glir beth yw ein dyfodol cynaliadwy.

Er mwyn sicrhau ffyniant i'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, gadewch i ni sicrhau ein bod yn parhau â'r 'edefyn aur' hwnnw, i wneud Cymru'n arweinydd byd-eang ar ddatblygu cynaliadwy.



Moryd Aberdaugleddau, Doc Penfro, Sir Benfro, Cymru © Photolibrary Wales.Com





# 1. CYFLWYNIAD

Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, mae canlyniadau o Uwchgynhadledd y Ddaear yn Rio yn 1992 ac Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy yn Johannesburg yn 2002, wedi darparu fframwaith i'r gymuned ryngwladol a llywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy yn yr etholaethau a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.



## TAITH CYMRU I LYWIO YMAGWEDDAU AT DDATBLYGU CYNALIADWY YNG NGHYMRU, TRWY RIO+20 A'R BIL DATBLYGU CYNALIADWY

Beth fu eu hetifeddiaeth yng Nghymru, yn nhermau llywodraethu, datblygu, sefydliadau, cymunedau a dinasyddion y wlad? Beth allwn ni ei ddysgu o daith Cymru dros y cyfnod hwn i lywio ymagweddau at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru yn y dyfodol, trwy Rio+20 yn 2012 ac wedyn, wrth i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ymagwedd ddeddfwriaethol trwy'r Bil Datblygu Cynaliadwy?

Comisiynodd WWF Cymru'r gwaith hwn er mwyn deall sut mae uwchgynadleddau Rio a Johannesburg wedi effeithio ar wleidyddiaeth, polisïau, llywodraeth, llywodraethu, sefydliadau ac unigolion yng Nghymru. Mae tystiolaeth ddogfennol, archifau'r cyfryngau a chyfweliadau wedi helpu i greu darlun adolygol o'u dylanwad ac i ystyried beth allwn ni ddysgu o'r 'daith datblygu cynaliadwy' yng Nghymru er mwyn dylanwadu ar yr 20 mlynedd nesaf.

**Mae'r adroddiad hwn yn fodd i atgoffa ac i annog.**

**Mae'n ein hatgoffa o'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni yng Nghymru ers 1992, a faint sydd ar ôl i'w wneud ers agenda uchelgeisiol Uwchgynhadledd gyntaf Rio.**

**Mae'n ein hannog trwy nodi'r hyn mae gweithredwyr allweddol yn barnu yw'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.**

**Dylai'r ddau fod yn fodd i nodi ein gwir gynnydd hyd yma, a llywio'r drafodaeth am Rio+20 a'r Bil Datblygu Cynaliadwy.**

Drwy gydol y ddogfen, rydym wedi rhoi cyfres o gwestiynau mewn print italig er mwyn ysgogi dadl bellach ar y materion a godwn.

## CYDNABYDDIAETHAU

Mae'r tîm ymchwil yn ddiolchgar iawn i'r unigolion sydd wedi cytuno i gymryd rhan yn y dadansoddiad hwn, unigolion sy'n cynrychioli pob agwedd ar gymdeithas, llywodraeth a sefydliadau Cymru. Safbwyntiau'r tîm ymchwil yw'r rhai a nodir yma.

# 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r ymchwil hon wedi datgelu darlun cyfoethog o ddylanwad Uwchgynadleddau Rio a Johannesburg ar Gymru, dylanwad sydd wedi para dros ugain mlynedd.

Mae yna nifer o ganfyddiadau allweddol sy'n cynnig gwers amlwg i Gymru wrth iddi symud ymlaen i ddeddfu ar gyfer datblygu cynaliadwy a chynllunio i'r dyfodol. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.

1. Roedd atgofion o Rio 1992 yn anodd eu casglu, ond rhoesant ymdeimlad o'r gobaith yng Nghymru y byddai Uwchgynhadledd y Ddaear yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Roedd y gymdeithas sifil, pobl ifanc ac ychydig o awdurdodau lleol arloesol yn cymryd rhan, gan ddehongli'r Uwchgynhadledd i Gymru a phobl leol.
2. Er gwaethaf ad-drefnu llywodraeth leol, yn y cyfnod rhwng 1992 a 2002 ffynnodd mentrau Agenda 21 Leol gyda gweledigaethu lleol, cymunedau'n cymryd rhan ac adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, gan sicrhau bod iaith (ac arfer yn aml) cynaliadwyedd yn beth cyffredin ym maes llywodraeth leol.
3. Un canlyniad hirhoedlog a phendant 20 mlynedd ar ôl Rio yw pa mor gydnerth yw'r agenda datblygu cynaliadwy ym mholisïau a phrosesau llywodraeth leol. Ers Rio yn 1992 rydym wedi gweld Agenda 21 yn ymddangos a diflannu; a newid i ganolbwyntio ar brif ffrydio datblygu cynaliadwy a defnyddion adnoddau'n effeithlon mewn llywodraeth leol yn hytrach nag ymgysylltu â'r gymuned o dan faner datblygu cynaliadwy.
4. Roedd tystiolaeth o Johannesburg 2002 yn haws ei chael. 10 mlynedd ar ôl Rio roedd yn paentio darlun o gyfranogiad helaeth yn y drafodaeth ar ddatblygu cynaliadwy, oddi wrth lywodraeth leol, y gymdeithas sifil a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yng Nghymru ac yn Affrica.
5. Mae dadansoddiad adolygol dros 20 mlynedd wedi dangos, rhwng Rio a Rio+20
   - aeddfedrwydd cynyddol polisïau a fframweithiau sefydliadol yng Nghymru yn mynd i'r afael â themâu'r Uwchgynadleddau
   - trafodaeth genedlaethol oedd yn aeddfedu yn y cyfnod cyn Uwchgynhadledd 2002
   - trobwynt yn 2002, gyda llai a llai o waith gan lywodraeth leol o dan Agenda 21 Leol a thrafodaeth genedlaethol o gwmpas themâu'r Uwchgynadleddau ar ôl hynny
   - dylanwad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar agenda datblygu cynaliadwy'n cynyddu trwy Adran 121.
   - gwell cynrychiolaeth wleidyddol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ar lefel ryngwladol
   - gwell cyfranogiad gan y gymdeithas sifil mewn prosiectau sy'n enghreifftio datblygu cynaliadwy.
6. Mae materion datblygu cynaliadwy rhyngwladol wedi cael eu coleddu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi ddatblygu, gyda datblygu cynaliadwy'n helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddod o hyd i'w llais ar lwyfan ryngwladol trwy Johannesburg, NRG4SD ac uwchgynadleddau ar yr hinsawdd wedi hynny.
7. Mae'r gymdeithas sifil a chyrff anllywodraethol wedi bod yn weithgar o Rio ymlaen, gyda rhwydweithiau cymorth hirhoedlog a sefydledig, prosiectau arloesol ac ymgysylltu â'r gymuned ar ddatblygu cynaliadwy dros gyfnod o 20 mlynedd. Mae perthynas glir rhwng y gymdeithas sifil a datblygu cynaliadwy wedi cael ei datblygu trwy Gynnal Cymru ac eraill.
8. Mae Cymru wedi datblygu cyfres o brosiectau partneriaethol sy'n enghreifftio elfen ryngwladol datblygu cynaliadwy a themâu'r Uwchgynadleddau – gan ddangos arweiniad i'r byd ynghylch Masnach Deg, defnyddio olion traed ecolegol, Cymru o Blaid Affrica, Maint Cymru ac eraill.

> *"Mae Cymru wedi datblygu cyfres o brosiectau partneriaethol sy'n enghreifftio elfen ryngwladol datblygu cynaliadwy a themâu'r Uwchgynadleddau"*



Pennod 2: Cyflwyniad

9. Mewn llawer o achosion mae'r Uwchgynadleddau wedi creu'r amgylchiadau i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Ym myd cymhleth datblygu polisïau a chyflawni polisïau, gorsymleiddio yw disgwyl gallu gweld perthnasoedd uniongyrchol rhwng yr Uwchgynadleddau a chamau gweithredu mewnwladol. Yn hytrach, mae proses mwy cynnil ac anuniongyrchol ar waith, lle mae unigolion wedi mynd ati i ddefnyddio Rio a Johannesburg i honni bod eu hagendâu'n ddilys mewn digwyddiadau, mewn lleoliadau sefydliadol, ac yn y gwaith o lunio polisïau.


11. Mae'r ymchwil hon yn awgrymu bod yr Uwchgynadleddau wedi cael effaith uniongyrchol wrth greu'r gofod gwleidyddol, trafodaeth a fframweithiau polisi sydd yn y pen draw wedi arwain Llywodraeth Cymru i fynd ar drywydd Bil Datblygu Cynaliadwy.
12. Mae unigolion a grwpiau o unigolion allweddol wedi cael eu hysgogi gan yr Uwchgynadleddau ac mae'r gwleidyddion, gweision sifil, swyddogion datblygu ac ymgyrchwyr hyn wedi arloesi, cydweithredu a chyflawni cynnydd a newid pendant.
13. Creodd ymroddiad ac egni gan wleidyddion yn y Cynulliad fel Sue Essex, Ron Davies, Rhodri Morgan a Jane Davidson ofod i weision sifil, awdurdodau lleol a chyrff anllywodraethol gydweithio ar fentrau, gan ddehongli cynigion yr Uwchgynadleddau a datblygu ymatebion.
14. Mae'r agenda datblygu cynaliadwy ryngwladol wedi cael ei cholli i lawer o bobl, oherwydd bod canolbwyntio ar gyflenwi'n lleol a chynildeb lleol wedi ei gwneud yn anodd hyrwyddo 'cyd-ddibyniaeth' ac 'o'r byd-eang i'r lleol' ar adeg o gyni.
15. Nid ydym wedi gweld y newid trawsnewidiol a addawyd gan Rio ar lawr gwlad yng Nghymru. Er hynny, rydym wedi gweld newid trawsnewidiol dros 20 mlynedd yn y fframwaith polisi neu 'offer' i ymdrin â datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gydlynol, ac nid yw'n rhoi ymdeimlad cyffredinol o gyfeiriad ar ddatblygu cynaliadwy.
16. Mae'r dyheadau ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf yn cael eu llesteirio gan y ffaith na chytunwyd ar unrhyw dir cyffredin ar agenda datblygu cynaliadwy yn y dyfodol yng Nghymru.
17. Fodd bynnag, mae yna obaith oddi wrth sylwebyddion allweddol bod modd sicrhau newid trawsnewidiol mewn cyfnod byr, ond mae yna ymdeimlad eglur bod angen brysio am nad oes llawer o amser i gynllunio'n dda ar gyfer datblygu cynaliadwy.
18. Mae tri model 'i ymgyrraedd atynt' wedi dod i'r amlwg trwy'r ymchwil, a gellir eu defnyddio er mwyn ystyried yr 20 mlynedd nesaf. Y rhain yw 'Cynaliadwyedd er mwyn goroesi', 'Cynaliadwyedd fel llwybr datblygu newydd' a 'Chynaliadwyedd fel ffordd o gyflenwi gwasanaethau'. Mae'r modelau hyn yn gydgysylltiedig ond gellir eu defnyddio i fyfyrio ynglŷn â pha lwybr datblygu mae'r Bil Datblygu Cynaliadwy yn fwyaf tebygol o'n hanfon ar hyd-ddo.
19. Mae negeseuon tebyg wedi dod i'r amlwg oddi wrth ddau grŵp o bobl – gwneuthurwyr polisi/ymarferwyr presennol a'r 'genhedlaeth nesaf' – penderfynwyr y dyfodol sydd wedi tyfu i fyny yn yr 20 mlynedd ers 1992. Maent yn gweld yr un problemau presennol a phroblemau yn y dyfodol a'r un faint o ddiffyg cydlyniaeth mewn gwerthoedd, polisïau a blaenoriaethau ag y ceisiodd Uwchgynhadledd Rio eu hunioni.
20. Mae bwlch o ran gweithredu o hyd – rhwng y fframweithiau polisi aeddfed sy'n ceisio mynd i'r afael â heriau datblygu cynaliadwy yng Nghymru (y rhai a ddatblygwyd o ganlyniad i'r Uwchgynadleddau) a datblygu cynaliadwy'n cael ei enghreifftio yn y ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau gwahanol ac yn cyflawni ar lawr gwlad.
21. Un her i'r Bil Datblygu Cynaliadwy a'i gefnogwyr fydd dweud yn blaen beth yw'r gwerthoedd sy'n sail i'w weledigaeth o ddatblygu cynaliadwy. Bernir mai'r gwerthoedd sy'n cael y flaenoriaeth bennaf ar hyn o bryd yw defnyddio adnoddau'n effeithlon a gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yn y drafodaeth ar ddatblygu cynaliadwy. Yr her i Gymru yw sicrhau na fydd tegwch byd-eang a byw o fewn terfynau amgylcheddol, sydd wedi cael eu trafod mewn Uwchgynadleddau ers hynny, yn cael eu colli.

> *"Yr her i Gymru yw sicrhau na fydd tegwch byd-eang a byw o fewn terfynau amgylcheddol, sydd wedi cael eu trafod mewn Uwchgynadleddau ers hynny, yn cael eu colli "*

# 3. Y NEGESEUON AC YSGOGWYR ALLWEDDOL A DDEILLIODD O RIO A JOHANNESBURG

Mae'n werth atgoffa'n hunain, 20 a 10 mlynedd yn ddiweddarach, beth yn union a gyflawnwyd yn y ddwy Uwchgynhadledd, a pha ysgogwyr o ran deddfwriaeth a pholisïau a ddaeth i'r amlwg o'u trafodaeth.

Mae hyn yn ein helpu i ddeall ac olrhain eu dylanwad ar ymatebion y Deyrnas Unedig a Chymru ac ymatebion lleol.



## DATGANIAD RIO

Cynhaliwyd **Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygu (UNCED) 1992** yn Rio de Janeiro o 3 i 14 Mehefin 1992. Roedd Uwchgynhadledd y Ddaear yn Rio, fel y daethpwyd i'w hadnabod, yn garreg filltir arwyddocaol o ran trafodaethau rhyngwladol ar ddatblygu cynaliadwy. Yn gyntaf, cymerodd 172 o lywodraethau ran yn yr Uwchgynhadledd. Yn ail, roedd bron 2,500 o gynrychiolwyr cyrff anllywodraethol ac 17,000 o bobl yn y Fforwm Byd-eang a gynhaliwyd yr un pryd. Creodd hyn deimlad o egni mewn digwyddiad byd-eang. Yn drydydd, trafodwyd amrywiaeth o faterion, gan gynnwys patrymau cynhyrchu, cyflenwad ynni, a dŵr. Yn bedwerydd, roedd yna ganlyniadau arwyddocaol. Roedd y rhain yn cynnwys dau gytundeb yn cael eu hagor i'w llofnodi,

- **Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, cytundeb rhwymedigol yn targedu allyriadau diwydiannol**
- **Confensiwn Amrywiaeth Biolegol, cytundeb rhwymedigol i warchod amrywiaeth bywyd.**

a thair dogfen allweddol:

- **Datganiad Rio lle mae 178 o lywodraethau'n cydnabod 27 o egwyddorion y mae eu hangen i weithio tuag at ddatblygu cynaliadwy, gan fyw o fewn terfynau amgylcheddol ac, ar yr un pryd, mynd ar drywydd cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb.**
- **Datganiad Egwyddorion Coedwigoedd ar warchod coedwigoedd a datblygu cynaliadwy**
- **Agenda 21: cynllun gweithredu i lywodraethau cenedlaethol a lleol, sefydliadau cyhoeddus a phreifat a'r sector gwirfoddol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy**

Arweiniodd Rio 1992 hefyd at sefydlu Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy.



## DATGANIAD JOHANNESBURG

Cynhaliwyd **Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy (WSSD) 2002** (a elwir hefyd Rio +10) yn Johannesburg o 26 Awst i 4 Medi 2002. Cafodd yr Uwchgynhadledd ei thanseilio'n rhannol oherwydd bod llywodraeth yr Unol Daleithiau wedi gwrthod cymryd rhan. Fe'i gadawyd i'r Undeb Ewropeaidd chwarae rhan fwy strategol, gydag agenda rynglywodraethol eglur yn hytrach nag agenda'n canolbwyntio ar gymunedau. Prif ganlyniad yr Uwchgynhadledd oedd Datganiad Johannesburg. Mae'r Datganiad yn ymrwymiad gan lywodraethau i ganolbwyntio ar amrywiaeth fawr o faterion datblygu, cymdeithasol ac amgylcheddol, sef meysydd datblygu cynaliadwy. O'i chyferbynnu â Datganiad Rio, mae'r drafodaeth o Johannesburg yn fwy cyffredinol ac yn ymrwymo llywodraethau cenedlaethol i ychydig o gamau gweithredu yn unig.

Yng Nghynllun Johannesburg ar weithredu nodwyd egwyddorion i'r gymuned ryngwladol, a llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol, fynd ar eu trywydd, heb unrhyw gytundebau rhwymedigol. Roedd y rhain yn ymdrin â: thlodi, defnydd o adnoddau; iechyd; bioamrywiaeth; dŵr; cenhedloedd bach; Affrica; rhanbarthau; sefydliadau.

Dyma'r canlyniadau crai. Rhoddir mwy o fanylion a dadansoddiad beirniadol yn bur faith mewn toreth o ddeunydd ar y we gan gynnwys y gwefannau canlynol a argymhellwn.

Uwchgynhadledd y Ddaear, Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygu 1992, http://www.un.org/geninfo/bp/enviro.html


Uwchgynhadledd Johannesburg 2002
http://www.un.org/jsummit/html/basic_info/basicinfo.html





# 4. GWEITHGAREDDAU CYMRY YN YR UWCHGYNADLEDDAU AC O'U CWMPAS

Dywedodd un person a holwyd fod y cyfnod hwn yn dal i fod yn "oes papur" a chofiodd am gardiau post ac arnynt addunedau'n cael eu hanfon i'r Uwchgynhadledd yn syth i'r Cenhedloedd Unedig oddi wrth awdurdod lleol.



*"Rydyn ni wedi mabwysiadu'r ôl troed ecolegol fel un o ddangosyddion y defnydd o adnoddau yng Nghymru, ac mae hyn yn rhywbeth unigryw."*

(Ôl Troed Ecolegol WWF – Y Stori Hyd Yma 2006)

Oherwydd absenoldeb y rhyngrwyd ac oherwydd archifau cyfyngedig o 1992, ychydig iawn o enghreifftiau oedd ar gael i'r tîm ymchwil o weithgarwch yn y cyfnod cyn Uwchgynhadledd Rio.

Aeth Ann Clwyd AS, Ysgrifennydd yr Wrthblaid dros Ddatblygu ar y pryd, i Uwchgynhadledd y Ddaear gan gynrychioli'r Blaid Lafur a Chwm Cynon. Dywed Ann mewn erthygl yn y Western Mail ar Fehefin 6ed 1992

*"yr hyn sydd ei angen yw cytundeb cynhwysfawr a rhwymedigol ar fesurau amgylcheddol a mesurau datblygu pellgyrhaeddol gan y gogledd a'r de fel ei gilydd"*

Cofiodd rhai o'r bobl a holwyd ddigwyddiad cyn yr Uwchgynhadledd yn y Deml Heddwch o'r enw Uwchgynhadledd y Ddaear i Bobl Iau yng Nghaerdydd ym mis Mehefin 1992, y cafwyd adroddiadau amdani hefyd yn y Western Mail. Roedd plant ysgol yn cynrychioli Cymru gyfan wedi cael eu gwahodd i roi addunedau ar goeden. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn ar ran WWF gan Alun Davies, sy'n AC ar hyn o bryd, a awgrymodd, pan holwyd ef, fod y digwyddiad yn

*"un o'r enghreifftiau cyntaf o'r lleol i'r byd-eang" "ymdeimlad o ddechrau, diniweidrwydd"*

Roedd un person a holwyd, oedd yn ddisgybl chweched dosbarth ar y pryd ac sydd bellach yn ffigwr allweddol ym maes datblygu cynaliadwy yng Nghymru, yn cofio sut y cafodd unigolion eu recriwtio ar gyfer y digwyddiad yn y Deml Heddwch i gynrychioli gwledydd unigol a fyddai'n mynd i Rio – digwyddodd hi gynrychioli Pakistan. Roedd yn ymddangos bod dadleuon, y gymdeithas sifil a chynnwys pobl ifanc yn uchel ar yr agenda.

Nid yw'r gwaith ymchwil wedi datgelu unrhyw dystiolaeth bod y Swyddfa Gymreig wedi rhoi arweiniad ar Rio i awdurdodau lleol. Ymddengys fod gan lywodraeth leol ar y pryd 'briff gwylio'. Yn wir, rhoddodd erthygl yn y Western Mail o 15 Mehefin 1992 fraslun o'r ffordd y trafododd cynghorwyr Dinas Caerdydd ganlyniadau Uwchgynhadledd y Ddaear wrth iddi gau, gan ddweud

*"Mae materion sybsidiaredd – penderfynu ar y lefel briodol isaf – a chynnwys y gymuned, yn berthnasol iawn i'r ddinas. Mae'n glir y bydd angen llawer iawn o waith ar lefel leol iawn er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r amcanion fydd yn cael eu gosod gan y digwyddiad,"*

Ar gyfer Uwchgynhadledd Johannesburg yn 2002, trwy archifau electronig ac archifau'r cyfryngau a chyfweliadau, daeth darlun gwahanol i'r amlwg – un lle roedd Cymru'n rhan annatod o'r trafodaethau ar lefel genedlaethol, leol a chymunedol, lle roedd Cymru a'i harferion da yn cael ei thrafod gartref ac yn Affrica. Roedd y gweithgareddau yng Nghymru oedd yn gysylltiedig â'r Uwchgynhadledd yn cynnwys:

**Cymru a'r Byd** - Cynhadledd cyn Uwchgynhadledd Johannesburg a drefnwyd gan Oxfam Cymru a WWF Cymru ac a gefnogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a gynhaliwyd ym mis Ebrill yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd. Daeth rhyw 400 o gynadleddwyr, ac roedd y seminarau a'r gweithdai'n fan cychwyn i'r neges roedd y Prif Weinidog Rhodri Morgan yn mynd â hi i Johannesburg. Cafodd y gynhadledd, a gyd-gadeiriwyd gan Eluned Morgan, ei hannerch gan yr Athro Syr John Houghton, Cadeirydd y Panel Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd, Derek Osborn o Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygu yn y Deyrnas Unedig (UNED-UK) ac Antonio Hill o Oxfam. Lansiodd Rhodri Morgan Ôl Troed Ecolegol Cymru gan ddweud

*"Rydyn ni wedi mabwysiadu'r ôl troed ecolegol fel un o ddangosyddion y defnydd o adnoddau yng Nghymru, ac mae hyn yn rhywbeth unigryw." (Ôl Troed Ecolegol WWF – Y Stori Hyd Yma 2006)*

Roedd gan **Sefydliad y Merched** ymgyrch ledled y Deyrnas Unedig o'r enw "What Women Want" oedd yn gwahodd aelodau i ddweud beth roedden nhw eisiau i arweinwyr y byd ei wneud ar gydraddoldeb i fenywod yn Rio +10. Cafodd hyn ei fwydo i'w gwaith ehangach ar Nodau Datblygu'r Mileniwm ac i'r Association of Countrywomen of the World.

Roedd rhaglen digwyddiadau **Cyngor Sir Fynwy** "Reach for the Summit" yn 2002 yn cynnwys digwyddiad i bobl ifanc o'r enw 'Our Planet" ym mis Tachwedd 2002, digwyddiadau masnach deg a dyddiau â thema mewnol ar ddefnyddio adnoddau'n effeithlon.

Roedd Cynhadledd Ieuenctid **Sir Gaerfyrddin** "Llygad ar y Byd" ym mis Tachwedd 2002 "O'r byd eang i'r lleol - o Johannesburg i Lanyfferi" yn cynnwys gweithdai ar ynni, defnyddio ôl troed ecolegol, datblygu rhyngwladol, masnach deg, bioamrywiaeth a thlodi.

**Awel Aman Tawe** prosiect fferm wynt gymunedol a gafodd ei ddewis gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol fel astudiaeth achos ar gyfer Johannesburg. Mae'r adroddiad ar yr astudiaeth achos hon yn cysylltu'n ôl yn glir i Agenda 21
http://www.petus.eu.com/left.php?sct=1&sbsct=1&pageid=5&pagesect=1&pagelang=en

Y Gynhadledd **"Debate, Decisions, Directions"** ym mis Rhagfyr 2002 a ddaeth â mwy na 300 o randdeiliaid ynghyd yn Abertawe i drafod canlyniadau Johannesburg, lansio Cynnal Cymru a deall y prif gyfyngiadau ar gyfer cynnydd.

Datganiad **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** ar Ddatblygu Cynaliadwy wedi'i ddatblygu i fwydo i uwchgynhadledd Johannesburg, wedi'i lofnodi gan bob un o'r 22 awdurdod a'r Parciau Cenedlaethol, gydag astudiaethau achos i enghreifftio camau gweithredu cynaliadwy. Cymeradwyodd Cyngor Sir Gâr ac eraill hwn ym mis Awst 2002.
http://online.carmarthenshire.gov.uk/agendas/eng/EXBD20020902/REP04.htm

Cyflwynodd cynrychiolydd y **Biwro Rhyngwladol Llywodraeth Leol**, y Cynghorydd Alan Lloyd o Gyngor Abertawe, Ddatganiad Llywodraeth Leol i Johannesburg ar ran llywodraeth leol ledled y byd.
http://new.lga.gov.uk/lga/aio/22024

Cynrychiolwyd **Llywodraeth Cynulliad Cymru** yn Uwchgynhadledd Johannesburg gan Brif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, a lofnododd Ddatganiad Gauteng ac a ymunodd â rhwydwaith llywodraethau rhanbarthol nrg4sd.
http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/2231089.stm

*"Roedd y gweithgarwch hwn yn ymdrechu'n bennaf i ddeall goblygiadau'r Uwchgynhadledd yng nghyd-destun Cymru ac i ymgysylltu â phobl ifanc, ac felly codi eu hymwybyddiaeth o'r materion o bwys"*

Yn amlwg, erbyn 2002 roedd gan Johannesburg broffil uchel yn 'ffurfafen' Cymru. Ddeng mlynedd ar ôl Rio, mae'n ymddangos fod datblygu cynaliadwy yn ofynnol ac yn ffasiynol, gan ennyn diddordeb y sector cyhoeddus, y gymdeithas sifil a'r byd academaidd.

Roedd y gweithgarwch hwn yn ymdrechu'n bennaf i ddeall goblygiadau'r Uwchgynhadledd yng nghyd-destun Cymru ac i ymgysylltu â phobl ifanc, ac felly codi eu hymwybyddiaeth o'r materion o bwys.

Mae'r enghreifftiau hyn yn rhoi ciplun o'r gweithgarwch yn 1992 a 2002. Sut maen nhw'n ffitio i'r 20 mlynedd diwethaf o lywodraethu, polisi a datblygu yng Nghymru?





# 5. LLINELL AMSER – MAPIO ETIFEDDIAETH YR UWCHGYNADLEDDAU YNG NGHYMRU

Er mwyn rhoi'r Uwchgynadleddau yn eu cyd-destun dros gyfnod o 20 mlynedd, datblygwyd llinell amser o 1992 i 2012 i ddangos:

- **cyfres o gerrig milltir datblygu o safbwynt polisi a llywodraethu ynghylch yr Uwchgynadleddau**
- **a rhai cerrig milltir gweithredu – gweithgareddau sy'n enghreifftio ymateb lleol neu gymunedol i'r themâu yr ymchwiliwyd iddynt yn yr Uwchgynadleddau.**

Mae'r llinell amser hon wedi cael ei llenwi trwy dystiolaeth ddogfennol, cyfweliadau ac adolygiad o gyfryngau (archifau papurau newydd a gwe). Bu'n fodd i ddwyn i gof atgofion y rhai a holwyd a chynorthwyodd gyda'r dadansoddiad beirniadol o etifeddiaeth yr Uwchgynadleddau. Mae'n rhoi persbectif ar y gweithgarwch ym maes datblygu cynaliadwy, sy'n bwysig. Nid yw'r llinell amser yn gynhwysfawr, ond mae'n galluogi darllenwyr i osod eu henghreifftiau allweddol hwythau i mewn i gyfnod o 20 mlynedd. Beth yw'r cerrig milltir, ymyriadau polisi a chysylltau allweddol eraill na chânt eu crybwyll yma?




© Chris Marais / WWF-Canon

Slogan Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy ym Mhentref Ubuntu.
Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy yn Johannesburg.

Pennod 5: Llinell amser – mapio etifeddiaeth yr uwchgynadleddau yng nghymru

# CYNHADLEDD RIO – UWCHGYNHADLEDD Y DDAEAR 1992

## RHAI CERRIG MILLTIR O RAN POLISI A LLYWODRAETHU 1992- 2002

**1992**
- Aeth Ann Clwyd AS, Ysgrifennydd Datblygu'r Wrthblaid ar y pryd, i Uwchgynhadledd y Ddaear gan gynrychioli'r Blaid Lafur a Chwm Cynon
- ymlaen Agenda 21 i awdurdodau lleol: strategaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy; codi ymwybyddiaeth aelwydydd; polisi a llywodraethu addasedig

**1994**
- Strategaeth Datblygu Cynaliadwy gyntaf y Deyrnas Unedig
- Cynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth

**1995**
- Ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru

**1996**
- Targed i awdurdodau lleol lunio strategaeth Agenda 21 Leol erbyn 2000

**1997**
- Targed y Deyrnas Unedig i leihau allyriadau CO2 20% o lefel sylfaen 1990 erbyn 2010.
- Protocol Allyriadau Kyoto (cadarnhawyd 2005)

**1998**
- Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru

**1999**
- Etholiad cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**2000**
- Y Cynllun datblygu cynaliadwy cyntaf yn cael ei gyhoeddi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru 'Dysgu Byw'n Wahanol'
- Sefydlu Cronfa Datblygu Cynaliadwy Parciau Cenedlaethol Cymru

**2001**
- Ôl Troed Ecolegol cyntaf Cymru'n cael ei fesur gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, WWF, Athrofa Amgylcheddol Stockholm ac eraill

**2002**
- Datganiad Llywodraeth Leol Cymru ar ddatblygu cynaliadwy

## RHAI CERRIG MILLTIR O RAN GWEITHREDU YNG NGHYMRU 1992 – 2002

**1992**
- Cynhadledd cyn Uwchgynhadledd y Ddaear, Uwchgynhadledd y Ddaear i Bobl Iau, yn y Deml Heddwch, Caerdydd
- Sefydlu Amgylchedd Cymru
- Penderfyniad Sefydliad y Merched ar Agenda 21
- Ymgynghoriad Cyngor Gwent ar Agenda 21
- Cyngor Dinas Caerdydd yn bartner ym mhrosiect dangosyddion datblygu cynaliadwy Ewroddinasoedd

**1993**
- Cynhadledd 'People and Environment Conference' yr Association of Commonwealth Universities yn Abertawe yn ymdrin â themâu Rio o safbwynt Addysg Bellach ac Uwch

**1998**
- Sefydlu Partneriaeth Ymlaen Ceredigion

**1999**
- Cyngor Caerdydd yn lansio Agenda 21 Leol: Fframwaith ar gyfer gweithredu

**2000**
- Cyngor Sir Gâr yn lansio Strategaeth Agenda 21 Leol yn yr Eisteddfod Genedlaethol

**2001**
- Sefydlu Sefydliad Ymchwil BRASS a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd

**2002**
- Cynhadledd Cymru a'r Byd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd cyn yr uwchgynhadledd - 400 o gynadleddwyr
- Prosiect Dyfodol Newydd i Gymru (Canolfan y Dechnoleg Amgen)
- WWF Her Ysgolion Ein Byd
- Cyngor Sir Fynwy: Digwyddiad 'Reach for the Summit' i bobl ifanc

Pennod 5: Llinell amser – mapio etifeddiaeth yr uwchgynadleddau yng nghymru

# CYNHADLEDD JOHANNESBURG – UWCHGYNHADLEDD Y DDAEAR 2002

## RHAI CERRIG MILLTIR O RAN POLISI A LLYWODRAETHU 2002 - 2012

### 2002

- Rhodri Morgan, y Prif Weinidog ar y pryd, yn mynd i'r Uwchgynhadledd a Chymru'n dod yn un o lofnodwyr datganiad Gauteng fel rhan o rwydwaith o lywodraethau rhanbarthol
- Cymru'n aelod sefydlol o rwydwaith NRG4SD ar gyfer llywodraethau rhanbarthol dros ddatblygu cynaliadwy
- Compact Llywodraeth Cymru a CLlLC ar Ddatblygu Cynaliadwy
- Datganiad a chanllawiau CLlLC ar y Newid yn yr Hinsawdd
- Estyn yn cyhoeddi arweiniad cwricwlwm ar addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang
- Targed Gweithredu Bioamrywiaeth i atal dirywiad erbyn 2010

### 2003

### 2004

- Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru diwygiedig 'Dechrau Byw'n Wahanol'

### 2005

- Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y Deyrnas Unedig 'One Future Different Paths'

### 2006

- Strategaeth Amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru

### 2007

- Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru

### 2008

- Fframwaith Datblygu Cynaliadwy CLlLC yn cael ei lansio ar gyfer llywodraeth leol
- Cymru'n llofnodi Rhaglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig ar newid hinsawdd i Affrica
- Jane Davidson AC yn mynychu trafodaethau'r Cenhedloedd Unedig ar yr hinsawdd yn Poznan i helpu rôl llywodraethau rhanbarthol ac is-genedlaethol

### 2009

- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned Cynllun Datblygu Cynaliadwy Diwygiedig
- Sefydlu Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd
- Cod Cartrefi Cynaliadwy

### 2010

- Lansio Strategaeth Dyfodol Diwastraff Cymru
- Cymru'n cyd-gadeirio'r rhwydwaith byd-eang NRG4SD
- Cymru yw unig gynrychiolydd y Deyrnas Unedig yn y trafodaethau ar yr hinsawdd yn Québec
- Lansio Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd

### 2011

- Cymru'n dechrau codi tâl am fagiau siopa untro
- Sefydlu swydd Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy Cymru
- Llywodraeth Cymru'n cychwyn ymgynghoriad ar Fil Datblygu Cynaliadwy

### 2012

- Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar y Bil Datblygu Cynaliadwy

## RHAI CERRIG MILLTIR O RAN GWEITHREDU YNG NGHYMRU 2002 - 2012

### 2002

- Pobl ifanc yn mynychu Uwchgynhadledd Johannesburg o WWF, Canolfan y Dechnoleg Amgen a Techniquest
- Y Cynghorydd Alan Lloyd o Gyngor Abertawe'n cyflwyno 'Datganiad Llywodraeth Leol' y World Association of Cities and local Authorities
- Sefydlu Cynnal Cymru – Fforwm Datblygu Cynaliadwy i Gymru
- Cynhadledd Cymru ar ôl Johannesburg Prifysgol Abertawe
- Tîm Rygbi Casnewydd (trwy Gyngor Casnewydd) yn dod yn dîm rygbi carbon niwtral cyntaf y byd
- Lansio Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol e.e. Powys, Sir Ddinbych ac yn y blaen

### 2003

### 2004

- Caerdydd yn croesawu cynhadledd nRG4SD gyda 34 o lywodraethau rhanbarthol o ledled y byd
- Cyhoeddi Olion Traed Ecolegol Cymru, Caerdydd a Gwynedd

### 2005

### 2006

- Rhaglen 'Greenprint' yng Ngŵyl y Gelli
- Sefydlu Canolfan Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor

### 2007

- Prifysgol Caerdydd yn croesawu'r Gynhadledd Ôl Troed Ecolegol Ryngwladol gyntaf
- Lansio Menter Cymru o Blaid Affrica
- Yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymrwymo i gynnal Gwerthusiad Cynaliadwyedd

### 2008

- Cymru'n dod yn Genedl Fasnach Deg gyntaf y byd erioed

### 2009

- Digwyddiad ar y newid yn yr hinsawdd 'Countdown to Copenhagen' yn Abertawe i 300 o bobl ifanc
- Prosiect Llamau yn cael ei enwi'n un o 10 cymuned carbon isel y Deyrnas Unedig

### 2010

- Lansio Siarter Datblygu Cynaliadwy Cymru yn Hay on Earth
- Prosiect y Cymoedd Gwyrdd yn cael cyllid sylweddol
- Prosiect Maint Cymru'n cael ei lansio i gynnal coedwigoedd glaw trofannol

### 2011

- Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd yn dod yn stadiwm digwyddiadau ardystiadwy-gy-naliadwy cyntaf y Deyrnas Unedig
- Lansio Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy ym Mhrifysgol Caerdydd
- Cau Comisiwn Datblygu Cynali-adwy Cymru
- Pentref Llangatwg yn ymrwymo i fod yn garbon niwtral erbyn 2015

### 2012

- Lansio Sefydliad Arfer Cynaliadwy ac Effeithiolrwydd Adnoddau (INSPIRE) yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin
- Cynhadledd y Sefydliad Materion Cymreig ar Rio+20

*"Rhodri'n mynd i Johannesburg oedd yr un peth mwyaf arwyddocaol mae Cymru wedi'i wneud yn rhyngwladol."*

Beth mae'r llinell amser hon yn dweud wrthym ni? Mae yna nifer o batrymau sy'n dod i'r amlwg.

- **cyflymder cynyddol gwaith datblygu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y themâu o'r Uwchgynadleddau**
- **cynrychiolaeth wleidyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar lefel ryngwladol**
- **pwyslais llywodraeth leol ar Agenda 21 Leol hyd at 2002 a leihaodd wedi hynny**
- **digwyddiadau cenedlaethol i ddehongli nodau cynadleddau rhyngwladol i gynulleidfaoedd yng Nghymru, a brinhaodd wedi hynny**
- **canolfannau ymchwil sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd yn cael eu sefydlu mewn prifysgolion yng Nghymru**
- **datblygu sefydliadol ynghylch y themâu o'r Uwchgynadleddau**
- **datblygu prosiectau ynghylch y themâu o'r Uwchgynadleddau**

Fel y dywedodd y rhai a holwyd gennym,

*"Rhoddodd Johannesburg ystyr i'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Heb Johannesburg byddai'r Cynllun wedi gallu syrthio ar fin y ffordd. Rhoddodd ystyr i'r hyn rydyn ni eisiau ei wneud yng Nghymru"*

*"Rhodri'n mynd i Johannesburg oedd yr un peth mwyaf arwyddocaol mae Cymru wedi'i wneud yn rhyngwladol"*

*"Bydd presenoldeb Mr Morgan yn Johannesburg yn codi proffil Cymru ar lwyfan y byd...a bydd yn galluogi Cymru i weithredu gyda'r mawrion"*

O'r dystiolaeth hon gellir dadlau bod gan Gymru bellach gefndir aeddfed o ran polisïau, gallu deallusol a fframwaith sefydliadol i fynd i'r afael â'r heriau a osodwyd yn 1992. O gyfuno hyn â'r cannoedd o brosiectau cymunedol ledled Cymru, wedi'u cefnogi gan Amgylchedd Cymru, Groundwork Cymru, Cynnal Cymru, WCVA, Cronfa Datblygu Cynaliadwy Parciau Cenedlaethol Cymru ac eraill, nad ydynt wedi'u cynrychioli yma, yna gellid creu darlun braf o genedl gynaliadwy sy'n aeddfedu.

Ydi hwn yn ddarlun cywir?

A ellir priodoli'r datblygiadau hyn yn uniongyrchol i ddylanwad yr Uwchgynadleddau?

A fyddent wedi digwydd beth bynnag?

Ymchwilir i'r cwestiynau hyn mewn adrannau diweddarach.





# 6. PA WEITHGAREDDAU YNG NGHYMRU SY'N ENGHREIFFTIO RIO A JOHANNESBURG?

Mae nifer o weithgareddau wedi dod i'r amlwg y mae'r rhai a holwyd yn eu nodi fel canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r Uwchgynadleddau y mae'n bosibl na fyddent wedi digwydd heb eu dylanwad.

YMGYSYLLTU AR GYNALIADWYEDD

Dangosir y rhain isod, gyda hyperddolenni, lle bônt ar gael, i gael mwy o wybodaeth.

Pam mae'r rhai a holwyd wedi dewis yr enghreifftiau hyn? Ymddengys fod yna gysylltiad uniongyrchol rhyngddynt a'r 'dehongliad' o'r Uwchgynadleddau yn y ffordd y maent yn:

- **enghreifftio agwedd gymunedol Agenda 21 Leol o Uwchgynhadledd Rio h.y. ymgysylltu â'r gymuned a grwpiau cymunedol wrth ddatblygu gweithgarwch er mwyn mynd ar drywydd cynaliadwyedd**
- **enghreifftio agendâu tegwch rhyngwladol a byd-eang yr Uwchgynadleddau h.y. prosiectau rhyngwladol neu'r rhai a geisiodd sicrhau cyfran deg ar y defnydd o adnoddau**
- **darparu ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu ar gynaliadwyedd i gynulleidfaoedd allweddol**
- **dangos newid sefydliadol i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy**

CYFRAN DEG AR Y DEFNYDD O ADNODDAU

Sefydlwyd partneriaeth **Ymlaen Ceredigion** rhwng Cyngor Ceredigion, Ymddiriedolaeth y Tywysog ac Agenda 21 Leol Ceredigion yn 1998 i fynd ar drywydd Agenda 21 Leol yng Ngheredigion. Ymagwedd unigryw.
http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=189

**Sefydliad y Merched** Prosiect Pathways, prosiect 90@90 ar ymddygiad defnyddwyr a Merched a'r Newid yn yr Hinsawdd ac ymgyrchoedd ar y newid yn yr hinsawdd.
http://www.thewi.org.uk/about-the-wi/history-of-the-wi/2000s

Mae **NRG4SD** Rhwydwaith Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy, yn sefydliad rhyngwladol sy'n cynrychioli 50 o lywodraethau is-genedlaethol o 30 o wledydd. Fe'i sefydlwyd yn Johannesburg ac mae Cymru wedi chwarae rhan flaenllaw.
http://www.nrg4sd.org/members/wales-united-kingdom

Daeth **Caerdydd yn Brifddinas Masnach Deg gyntaf y byd yn 2004**, gan weithio trwy bartneriaeth Masnach Deg Caerdydd a'r Cyngor.
http://www.cardiff.gov.uk/content.asp?nav=2870,3148,6218,6226&parent_directory_id=2865&language=CYM

Mae **Ôl Troed Ecolegol Cymru** wedi'i sefydlu bellach fel dangosydd craidd i Lywodraeth Cymru ar ôl cael ei fesur am y tro cyntaf yn 2004. Yn fesur o gyfran deg fyd-eang, mae'n cael ei ddefnyddio bellach ar lefel awdurdodau lleol a chymunedau.
http://www.footprintwales.org/cy/content/cms/tudalen_gartref/tudalen_gartref.aspx

Mae **Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** a sefydlwyd yn 2007 yn darparu arweiniad a chyngor ymarferol ar gyflawni datblygu cynaliadwy mewn cyd-destunau corfforaethol a chyd-destunau gwasanaethau a chymunedau.
http://www.wlga.gov.uk/cymraeg/fframwaith-datblygu-cynaladwy/

Sefydlwyd **Cynnal Cymru** yn 2002 fel sefydliad ag aelodau, sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac yn codi ymwybyddiaeth o arfer da yng Nghymru. Mae bellach yn darparu cymorth i Gomisiynydd Datblygu Cynaliadwy Cymru.
http://www.cynnalcymru.com/

Mae **Panel Cynaliadwyedd** trawsbleidiol **Caerffili** yn enghraifft o grŵp cynghori a

phenderfynu hirsefydlog (10 mlynedd) sy'n dylanwadu ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghaerffili.
http://your.caerphilly.gov.uk/sustainable/content/welcome

**Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang** yn cael ei sefydlu fel rhan o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru o 2006 ymlaen.
http://www.esd-wales.org.uk/

Mae menter **Cymru o Blaid Affrica** a lansiwyd yn 2006 yn enghreifftio ymdrechion yng Nghymru i helpu i gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm y Cenhedloedd Unedig i haneru tlodi byd-eang erbyn 2015 – wedi'i seilio ar gymorth gan y sector cyhoeddus, gwirfoddoli, Masnach Deg a chyrff anllywodraethol.
http://www.walesafrica.org/index.html

**Prosiect Maint Cymru** i helpu i gynnal arwynebedd o goedwig drofannol maint Cymru trwy gymunedau, busnesau, sefydliadau ac ysgolion i helpu i warchod dwy filiwn o hectarau o goedwig law a meithrin cysylltiadau hirhoedlog gyda rhai o bobl dlotaf y byd.
http://www.sizeofwales.org.uk/

Yn amlwg, mae'n bosibl fod yna lawer mwy o enghreifftiau o weithgarwch tebyg gan sefydliadau eraill sydd â nodau tebyg. Nid darparu rhestr gynhwysfawr oedd diben y gwaith ymchwil hwn, ond darparu rhyw syniad o ba ganlyniadau mae gweithredwyr allweddol yn barnu yw etifeddiaeth yr Uwchgynadleddau.

*Pa weithgareddau eraill yng Nghymru ddylanwadodd Rio a Johannesburg arnynt?*





# 7. THEMÂU SY'N DOD I'R AMLWG O'R YMCHWIL

Mae nifer o themâu eang wedi dod i'r amlwg o'r cyfweliadau a'r dystiolaeth ddogfennol, ynglŷn â'u hetifeddiaeth, sy'n darparu rhai gwersi i'n hymagwedd at ddatblygu cynaliadwy yn y dyfodol.

## 7.1 O RIO I JOHANNESBURG – 'DEGAWD AGENDA 21 LEOL'

Ar ôl Rio, mewn rhai awdurdodau lleol yng Nghymru, ymddengys y bu bwrlwm o weithgarwch: 'gweledigaethu' ar gyfer y dyfodol, prosiectau ymarferol yn y gymuned a gwyrddio 'corfforaethol' ynghylch defnyddio adnoddau'n effeithlon.

Neges gref trwy'r gwaith ymchwil hwn yw bod Rio wedi cael effaith 'symbylol' cyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996

*"gan gael effaith gadarnhaol ar symbylu gweithgarwch cymunedol"*

*"fel lle a man cychwyn ar gyfer y drafodaeth (ar ddatblygu cynaliadwy)"*

*"gan fod materion rhyngwladol wedi dod yn rhai dilys i weithio arnynt"*

*"gan gael effaith gadarnhaol ar symbylu gweithgarwch cymunedol"*

Dywedwyd bod awdurdodau yng Ngwent, Caerdydd a Wrecsam, ymysg eraill, wedi gweithredu'n gynnar ar Agenda 21 Leol. Roedd Gwent wedi datblygu calendr o weithgareddau yn y cyfnod cyn y gynhadledd gan gynnwys addunedau i'w hanfon i'r gynhadledd. Cafodd swyddi cydgysylltwyr amgylcheddol eu creu mewn llawer o gynghorau lleol ac, o dan ddylanwad canllawiau i'r Deyrnas Unedig oddi wrth y Bwrdd Rheoli Llywodraeth Leol, bu i ddatblygu cynaliadwy trwy Agenda 21 Leol ennill ei blwyf fel 'brand' i weithio drwyddo i awdurdodau lleol, yn fewnol ac yn allanol. Ni weithiodd y brand hwn i bawb, a dywedodd rhai o'r bobl a holwyd fod Agenda 21 Leol yn niwlog ac yn anymarferol, a byth yn gwbl gyson â nodau awdurdodau lleol. Mae'r cyferbyniad hwn a'r darlun cymysg wedi cael eu nodi mewn astudiaethau blaenorol gan Sefydliad Joseph Rowntree (Thomas a Williams yn 2004) a chan Ganolfan Ymchwil Cysylltiadau Busnes, Atebolrwydd, Cynaliadwyedd a Chymdeithas (BRASS) (Flynn a Netherwood 2004).

http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/1859352162.pdf

Parhaodd gweithgarwch Agenda 21 Leol, er gwaethaf ad-drefnu llywodraeth leol, trwy 1995 a 1996, gyda grŵp bach o Gydgysylltwyr Amgylcheddol yn lobïo'r Swyddfa Gymreig i gynnwys Agenda 21 Leol fel rhan o gyfansoddiad Cynghorau newydd. Yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sicrhaodd hyn gyfrifoldeb clir, adnoddau a staffio i ddilyn ymlaen o'r agenda a ddatblygwyd yng Ngwent. Yn achos Caerdydd cafodd gwaith arloesol fel prosiect Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy Ewropeaidd ei ollwng, wrth i Gyngor y Ddinas droi'n awdurdod unedol newydd. Yn hytrach nag atal y gweithgarwch, mewn llawer o Gynghorau parhawyd â mandad Agenda 21 trwy'r ad-drefnu a daeth yn ffordd sefydledig o weithio.

*"Rwy'n dal i feddwl bod Agenda 21 Leol yn hollbwysig i ddatblygu cynaliadwy*



*"fyddai gennyn ni ddim Fframwaith Datblygu Cynaliadwy CLlLC heb Rio a Johannesburg"*

*oherwydd mae'n gwreiddio datblygu cynaliadwy mewn pobl a'u cymunedau gan eu helpu i feddwl am atebion, mae'n dod â chysyniad Meddwl yn Fyd-eang, Gweithredu'n Lleol yn fyw"*

Mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu gwydnwch ynghylch Agenda 21 Leol a'r themâu a godwyd yn Rio hyd at 2002. Mae sefydliadau fel y Bwrdd Rheoli Llywodraeth Leol, Biwro Rhyngwladol Llywodraeth Leol ac ICLEI wedi bod â rôl glir yn hyn, gan ddarparu arweiniad, cynadleddau ac astudiaethau achos i gefnogi gweithgarwch. Rhoddwyd sbardun pellach i Agenda 21 Leol gan ofyniad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i awdurdodau lleol fod ag Agenda 21 Leol erbyn 2000.

I rai awdurdodau lleol roedd Johannesburg yn cynrychioli

*"ailgynnau'r agenda ryngwladol"*

gyda llawer fel Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Sir Gâr yn ymgysylltu â phobl ifanc a'r gymuned ynghylch materion yn ymwneud â thegwch byd-eang gan gynnwys masnach deg.

*"Yng Nghymru y realiti oedd bod Agenda 21 wedi ymsefydlu ...20 mlynedd wedyn mae gennyn ni swyddogion Datblygu Cynaliadwy/Agenda 21 yng Nghymru o hyd – cyflawniad gwirioneddol sydd yn aml yn cael ei anghofio"*

*"Yr hyn mae awdurdodau lleol yn ei wneud ar Agenda 21 Leol, alla i ddim meddwl sut y byddai hyn wedi gallu digwydd mewn ffordd mor gydgysylltiedig [heb Rio)"*

O benllanw gweithgarwch ar Agenda 21 Leol ar droad y ganrif newydd, fe drodd y rhod yn gyflym. Roedd awdurdodau lleol yn dal i gyhoeddi strategaethau Agenda 21 Leol yn 2002 ond ymddengys fod hyn yn fwy o weithgarwch etifeddol nag yn ffactor oedd yn ysgogi newid. Yn lle hynny, cafodd Agenda 21 ei hail-frandio o gwmpas yr adeg hon yng Nghymru. Yn raddol disodlwyd Agenda 21 Leol gan ymagwedd newydd at gynllunio 'hirdymor' yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dadlau drosti, trwy Ganllawiau Cynllunio Cymunedol, gan annog cynllunio ar lefel y gymuned dros gyfnod o 5 mlynedd a defnyddio dangosyddion ansawdd bywyd i ymgysylltu â chymunedau mewn 'gweledigaethau' lleol. Ond yn bwysicach, efallai, ymddengys fod Agenda 21 wedi mynd allan o ffasiwn. Yn fuan iawn dechreuodd y drafodaeth ar ddatblygu cynaliadwy ym maes llywodraeth leol ganolbwyntio ar bethau y gellir eu cyflawni, defnyddio adnoddau'n effeithlon a newid sefydliadol yn hytrach na gweledigaethu a chynnwys y gymuned. Awgrymir rhai o'r rhesymau am hyn yn yr adran nesaf.

**Er hynny, goroesodd Agenda 21 am ddegawd mewn sector oedd yn newid ac yn datblygu'n gyflym (llywodraeth leol Cymru) gan osod y sylfeini ar gyfer gwaith datblygu cynaliadwy ledled y sector cyhoeddus. Mae hyn yn etifeddiaeth sylweddol o Rio ac yn tystio i'r rhai a gymerodd ran.**

Fel yr awgrymodd y rhai a holwyd o faes llywodraeth leol, mewn safbwyntiau y byddai llawer yn eu rhannu,

"roedd e (Rio) yn golygu y daeth datblygu cynaliadwy'n rhan o feddylfryd awdurdodau lleol Cymru"

"fyddai gennyn ni ddim Fframwaith Datblygu Cynaliadwy CLlLC heb Rio a Johannesburg"





## 7.2 AR ÔL JOHANNESBURG – TWF DYLANWAD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU AR YR AGENDA DATBLYGU CYNALIADWY LLEOL

O 1997-99 a Deddf Llywodraeth Cymru hyd at etholiadau cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bu yna gryn newid byd wrth i Gymru gychwyn ar gyfnod o ddatganoli, gan symud o'r Swyddfa Gymreig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

*"Roedd yr Uwchgynhadledd yn rhan hollbwysig o'r ffordd yr oedd gwleidyddion a gweision sifil yn datblygu'r 'achos busnes' dros ddatblygu cynaliadwy"*

A ddylanwadodd Rio yn 1992 ar y ddyletswydd Datblygu Cynaliadwy, Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn 1998? Yr ateb, yn ddiau, yw do. Am ba reswm arall fyddai 'Grŵp Morgannwg', a gefnogodd Lywodraeth Cymru yn y cyfnod cyn y Ddeddf, yn trafod yr angen i osod datblygu cynaliadwy yn y 'ddeddfwrfa'? Pe na fuasai unrhyw gyd-destun rhyngwladol, Agenda 21, Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r Deyrnas Unedig ac ati, pam fuasai yna'r symudiad hwn i gynnwys datblygu cynaliadwy ar yr adeg honno? (Gweler Bishop, Flynn, Netherwood Multi-level Governance for SD in Wales 2003).
http://www.iccr-international.org/regionet/docs/ws2-flynn.pdf

Darparodd sefydliad newydd ffyrdd newydd o weithio - gyda Chynlluniau Datblygu Cynaliadwy, ymgynghoriadau, adolygiadau effeithiolrwydd, dangosyddion, pwyllgorau wedi hynny i ddatblygu ymateb y Llywodraeth. Mae'n glir o'r rhan a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Johannesburg 2002 fod yr Uwchgynhadledd hon yn rhan hollbwysig o'r ffordd yr oedd gwleidyddion a gweision sifil yn datblygu'r 'achos busnes' dros ddatblygu cynaliadwy.

*"Rhan o'r ffordd y gwnaeth y llywodraeth newydd ei marc oedd trwy ddatblygu, gyda llywodraeth leol, 'brand' Cynllunio Cymunedol newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddisodlodd Agenda 21 Leol"*

Rhan o'r ffordd y gwnaeth y llywodraeth newydd ei marc oedd trwy ddatblygu, gyda llywodraeth leol, 'brand' Cynllunio Cymunedol newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddisodlodd Agenda 21 Leol. Roedd hyn â ffocws mwy lleol, yn dal i arddel datblygu cynaliadwy, ond yn colli'r cysylltiad i'r Uwchgynadleddau a'r cyd-destun rhyngwladol ehangach. Yn eironig, ymddengys fod hyn wedi gwanhau ffocws cymunedol gweithgarwch datblygu cynaliadwy, a ddisodlwyd mewn awdurdodau lleol gan ffocws ar systemau corfforaethol, prif ffrydio a strategaeth, yn bennaf ynghylch defnyddio adnoddau'n effeithlon. Roedd y rhai a holwyd o awdurdodau lleol yn glir iawn ynghylch dylanwad menter Cynllunio Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Agenda 21 gan ei ddisgrifio fel y "peth a'i lladdodd" a'r "hoelen yn yr arch". Ydi hyn yn ddarlun teg? Yn sicr mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu, ar ôl 2002,

- **bod ymagweddau at ddatblygu cynaliadwy mewn awdurdodau lleol wedi dod yn fwy ynysig, â ffocws lleol neu fewnol heb fod y cysylltiad rhyngwladol yn cael ei wneud (y tu hwnt i Fasnach Deg)**
- **bod y pwyslais ar 'brif ffrydio datblygu cynaliadwy' a 'defnyddio adnoddau'n effeithlon' wedi bod yn drech na thegwch byd-eang neu faterion rhwng y cenedlaethau – gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r presennol ac i gymunedau lleol. Fel y dywedodd un o'r rhai a holwyd. "Mae prif ffrydio'n fater o wneud rhywbeth yn aneffeithiol"**
- **bod awdurdodau lleol wedi dechrau adweithio'n fwy i ganllawiau Llywodraeth Cymru ac ar yr un pryd wedi dod yn llai uchelgeisiol yn eu hymagweddau eu hunain**

*Mae yna nifer o faterion pwysig eraill i'w hystyried yma.*

Yn gyntaf, ar ôl Johannesburg, fel mae'r llinell amser yn awgrymu, dechreuodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu tirwedd polisi ranbarthol eang a soffistigedig i ymateb i'r materion a drafodwyd yn Rio a Johannesburg – gan gyhoeddi canllawiau i lywodraeth leol, a'u rhoi ymysg eu partneriaid cyflenwi. *A ellid dadlau bod hyn wedi hybu ymagwedd fwy goddefol at ddatblygu polisi datblygu cynaliadwy, ac yn arbennig yr agenda ryngwladol ar lefel leol?*

*"Ôl Troed Ecolegol, Masnach Deg, Cymru o Blaid Affrica"*

*"Cymerodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ran arweiniol yn gwaith o lunio'r drafodaerth genedlaethol ynghylch materion datblygu cynaliadwy"*

*"rydyn ni'n dal i ymdrin â'r un materion"*

Yn ail, ac efallai'n fwy dadleuol, dechreuodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'goleddu' y Brand Datblygu Cynaliadwy rhyngwladol, yn fwy nag awdurdodau lleol, trwy fersiynau'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy, trwy fynd i Johannesburg, trwy gymryd rhan yn NRG4SD a thrwy gefnogi gwaith partneriaethol ynghylch er enghraifft yr Ôl Troed Ecolegol, Masnach Deg, Cymru o Blaid Affrica.

Yn drydydd ac yn gysylltiedig â hyn, cymerodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ran arweiniol yn y gwaith o lunio'r drafodaeth genedlaethol ynghylch materion datblygu cynaliadwy a materion byd-eang, tra bo awdurdodau lleol wedi dod i ganolbwyntio mwyfwy ar ganlyniadau lleol. Ai lle mwyaf priodol elfen ryngwladol datblygu cynaliadwy yw ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru?

Yn olaf, mae'n wir fod llawer o'r drafodaeth yn Uwchgynhadledd 2002 wedi canolbwyntio ar adnoddau a phrosesau - 'pethau' dealladwy, mesuradwy a phendant i awdurdodau lleol weithio gyda hwy, yn hytrach nag Agenda 21 'niwlog' a'i ffocws cymunedol. Roedd rheoli a gwella perfformiad mewn bri ar yr adeg honno ym maes llywodraeth leol, felly efallai nad yw'n syndod mai ar y themâu datblygu cynaliadwy hyn y cafodd gwaith ei wneud ar ôl Johannesburg mewn Cynghorau. Anfantais y ffocws hwn ar ddefnyddio adnoddau'n effeithlon yw bod datblygu cynaliadwy'n cael trafferth i ddod allan o'r 'geto' amgylcheddol mae'n cael ei roi ynddo mor aml.

Ugain mlynedd yn ddiweddarach, mae rhai o'r bobl a holwyd yn awgrymu mai ychydig o gynnydd sydd wedi cael ei wneud ar lefel awdurdodau lleol, er gwaethaf ymyriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru,

> *"rydyn ni'n dal i ymdrin â'r un materion"*
>
> *"Yn y dyddiau cynnar roeddwn i'n frwd iawn dros Agenda 21 Leol ac yn ei ffurf go iawn rwy'n dal i deimlo felly amdano....[heddiw] mae'n fwy o broblem nag o gaffaeliad. Caniataodd prosiectau arddangos i arweinwyr llywodraeth leol bwyntio at y rheiny ond mynd ymlaen â busnes fel arfer. Ddeuddeng mlynedd yn ddiweddarach [ar ôl Adran 121] allwn ni ddim olrhain effaith datblygu cynaliadwy ar benderfyniadau mawr"*

Roedd eraill yn fwy cadarnhaol o lawer, gan weld Fframwaith Datblygu Cynaliadwy CLlLC a thrafodaeth trwy'r Bil ar wneud datblygu cynaliadwy'n brif egwyddor drefniadol yn y sector cyhoeddus fel dangosydd bras ein bod yn cael ein systemau'n iawn i ymdrin â datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

A fyddai awdurdodau lleol yng Nghymru, heb ddylanwad Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf, wedi gwneud mwy o gynnydd tuag at nodau Agenda 21? A fyddai canllawiau mwy sensitif gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ôl 2002 wedi galluogi mentrau datblygu cynaliadwy i ffynnu? A oedd hi'n mynd yn nos ar Agendâu 21 beth bynnag? Neu a yw cynlluniau a phrosiectau Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gadael i lywodraeth leol fynd i fan lle maent yn fodlon ar ddatblygu cynaliadwy fel mater o ddefnyddio adnoddau'n effeithlon? Mae'r atebion i'r cwestiynau hyn yn ddyrys a byddant yn wahanol ar draws Cymru mewn ardaloedd gwahanol. Fodd bynnag mae'n glir o'r drafodaeth gyfredol ynghylch y Bil Datblygu Cynaliadwy bod awdurdodau lleol yn ganolog i'r ymateb o ran llywodraethu yn y dyfodol.





## 7.3 RÔL Y GYMDEITHAS SIFIL

Dros yr 20 mlynedd diwethaf mae gweithgarwch ar lefel gymunedol wedi parhau gan ddangos datblygu cynaliadwy'n lleol, yn aml heb ymgysylltu'n uniongyrchol â'r awdurdod lleol, ond yn aml gyda chymorth y Swyddfa Gymreig ac wedyn cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

*"Cafodd Rio effaith symbylol ar y gymdeithas sifil".*

*"Fyddai llawer o'r hyn dwi wedi'i wneud ddim wedi digwydd heb Rio"*

A fyddai'r gweithgareddau hyn wedi digwydd heb sbardun Rio ac yna Johannesburg? Er nad yw wedi'i gofnodi, mae'r hanes llafar ynghylch y gynhadledd cyn Rio 1992 yng Nghaerdydd yn awgrymu bod y gymdeithas sifil wedi cymryd rhan fawr yn y digwyddiad hwnnw.

> *"Cafodd Rio effaith symbylol ar y gymdeithas sifil"*
>
> *"Fe wnaeth i ni feddwl bod angen i ni wneud rhywbeth oedd yn ymarferol ac yn gydweithredol"*

A greodd yr Uwchgynadleddau'r amgylchiadau ar gyfer yr enghreifftiau canlynol o weithgarwch y gymdeithas sifil a nodwyd gan y sawl a holwyd? A gawsant eu defnyddio i honni bod eu gwerth yn ddilys neu ei roi mewn cyd-destun? Mae hyn yn debygol mewn rhai achosion, ond yn llai clir mewn achosion eraill. Mae'n bosibl bod Rio wedi dylanwadu ar y Swyddfa Gymreig i gefnogi Amgylchedd Cymru yn 1992 – ond mae'r berthynas yn aneglur heb ragor o waith ymchwil. Hefyd ni wyddom i ba raddau mae'r uwchgynadleddau wedi dylanwadu ar waith gwirfoddol miloedd o bobl yn 300 a rhagor o brosiectau cofrestredig dros yr 20 mlynedd diwethaf.

Mae'r berthynas yn gliriach ym mhrosiect Pathways Sefydliad y Merched, a ddeilliodd yn uniongyrchol o ddatganiad ar ôl Rio gan Sefydliad y Merched yn 1992, i gefnogi dros 700 o brosiectau trwy 800 o Sefydliadau'r Merched yng Nghymru rhwng 1998 a 2003. Defnyddiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r prosiect hwn fel esiampl yn Johannesburg yn 2002. Mae Sefydliad y Merched wedi ymwneud â materion rhyngwladol ym maes cynaliadwyedd ers penderfyniadau ar lygredd yn 1927, ac wedi cael ei gynrychioli'n uniongyrchol mewn cynadleddau rhyngwladol trwy ei ymgyrchoedd ar ddefnyddiaeth, y newid yn yr hinsawdd a charbon.

Lansiwyd Cynnal Cymru - Sustain Wales gan Rod Aspinwall yn y gynhadledd ar ôl Rio yn Abertawe yn 2002, gan gyfeirio'n uniongyrchol at Rio a Johannesburg a'r angen i gynrychioli'r gymdeithas sifil ym maes datblygu cynaliadwy. Dyma un o ddaliadau canolog Agenda 21. Allwn ni honni ar ôl 10 mlynedd bod y rhwydweithiau, y prosiectau a'r gwaith codi ymwybyddiaeth sy'n cael eu cefnogi gan Gynnal Cymru yn ganlyniad i Rio a Johannesburg?

Mae Ymlaen Ceredigion yn defnyddio dull unigryw o lywodraethu ynghylch cynaliadwyedd. Sefydlwyd cynghrair o'r Cyngor lleol, grŵp cymunedol Agenda 21 Leol, Ymddiriedolaeth y Tywysog a chorff anllywodraethol yn 1998. Mae wedi dylanwadu ar ymagweddau at faterion gwledig, y Gymraeg ac adfywio ac wedi cefnogi gwaith prosiect cymunedol ers dros 14 mlynedd. A ellir dadlau bod hyn yn dangos agwedd gymunedol Agenda 21 yn llawer mwy effeithiol na dulliau awdurdodau eraill, sydd wedi canolbwyntio ar sefydliadau?

Fel y nododd un ymarferydd:

> *"Fyddai llawer o'r hyn dwi wedi'i wneud ddim wedi digwydd heb Rio, fe roddodd sylwedd i Brundtland ....rhoddodd ymdeimlad o weithredu ac o bwrpas"*

A yw'n mynd yn rhy bell i ymestyn dylanwad yr Uwchgynadleddau i fudiad Trefi Trawsnewid? A yw'r 'stori' a'r ysgogiad polisi ym maes y newid yn yr hinsawdd sy'n dod o Rio trwy Johannesburg i Bali, Cancun a Copenhagen a'r sylw cysylltiedig yn y cyfryngau hefyd yn ffactorau allweddol sy'n sbarduno pobl i ymgysylltu ym maes cydnerthedd yn erbyn effeithiau'r newid yn yr hinsawdd?

Mae hyn yn ein harwain at un o gwestiynau canolog y gwaith ymchwil. Faint o weithgarwch y gellir ei briodoli i ddylanwad yr Uwchgynadleddau? Beth oedd barn gweithredwyr allweddol ar y berthynas rhwng yr hyn sy'n digwydd yn awr a'r hyn a ddigwyddodd 10 ac 20 mlynedd yn ôl?

## 7.4 BETH ALLWN NI EI BRIODOLI'N UNIONGYRCHOL I RIO A JOHANNESBURG?

Mae rhai a holwyd wedi rhoi dadl gref dros y berthynas uniongyrchol rhwng yr Uwchgynadleddau a chreu'r amgylchiadau, yr ysgogiad, y coleddu ac mewn rhai achosion y ddeddfwriaeth i ddatblygu polisi a gweithgarwch i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy.

*"Fydden ni ddim wedi bod yn sôn am ddatblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol heb Rio"*

Soniodd rhai am y cysylltiad achosol uniongyrchol,

*"Fyddai datblygu cynaliadwy ddim yn rhan o Lywodraeth Cymru, fyddai 'na ddim Bil, dim Siarter, dim prif egwyddor drefniadol, heb Rio a Johannesburg"*

*"Rhoddodd Rio a Johannesburg ddilysrwydd i'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy"*

Roedd eraill yn fwy gochelgar,

*"Ni chafodd Johannesburg effaith uniongyrchol ar ein dull o weithio gyda chymunedau, ond ysgogodd y meddylfryd ein proffesiwn a threiddiodd i'n dulliau"*

Fodd bynnag, roedd consensws trawiadol gan y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd ynglŷn â rôl yr Uwchgynadleddau wrth roi hygrededd i ddatblygu cynaliadwy a'r gweithgarwch cysylltiedig – gan ddarparu rhan o'r achos busnes dros ymgysylltu a newid gan eu bod

- **wedi rhoi dilysrwydd uniongyrchol i weithgarwch datblygu cynaliadwy, gan fod y materion hyn yn cael eu trafod gan lywodraethau ar lefel ryngwladol, gan roi cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol i weithgarwch lleol.**
- **wedi rhoi ysgogiad ar lefel yr Undeb Ewropeaidd (trwy Gyfarwyddebau) neu ar lefel y Deyrnas Unedig, trwy dargedau i Gymru weithredu ym maes datblygu cynaliadwy. Mae'r gwaith ymchwil wedi nodi bod bioamrywiaeth, gwastraff a'r newid yn yr hinsawdd yn feysydd lle'r ymddengys fod nodau'r Uwchgynadleddau wedi cael eu trosi'n bolisi'r Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig ac yn bolisi rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, yn y rhan fwyaf o achosion, bod y sawl a holwyd o'r farn bod y drafodaeth o'r Uwchgynadleddau wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar y dirwedd bolisi yng Nghymru.**
- **wedi 'creu'r amgylchiadau' i ddatblygu cynaliadwy ddigwydd yng Nghymru a hebddynt, nid yw'n debyg y byddai proffil datblygu cynaliadwy wedi denu gwneuthurwyr polisi, gwleidyddion ac ymarferwyr i fynd ar y daith datblygu cynaliadwy hon – ac wedi arwain at y canlyniadau a restrir uchod.**

Mynegodd rhai a holwyd farn wahanol, sef mai ychydig o ddylanwad yr oedd yr Uwchgynadleddau wedi'i chael ar Gymru, ac eithrio'r ffordd yr oedd cynhadledd Johannesburg wedi cael ei defnyddio i frolio Cymru fel llywodraeth ranbarthol flaenllaw yn y maes hwn, ac mai dylanwad cymharol fach yr oedd Uwchgynadleddau wedi'i gael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar y ffordd mae Cymru wedi datblygu dros yr 20 mlynedd diwethaf. Os cymerir y farn hon yng nghyd-destun 'canlyniadau' cynaliadwy, yna mae'n bosibl bod rhywfaint o gadarnhad iddi. Mae adolygiadau o'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy a gwaith gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi dangos mai ychydig o enghreifftiau sydd o ymagweddau wedi'u newid o ganlyniad i'r Ddyletswydd Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru.

*"Lle rydyn ni wedi methu – cyfleu maint y materion o bwys ac mae'r agwedd o'r lleol i'r byd-eang wedi mynd ar goll"*

Fodd bynnag, barn y mwyafrif yw bod yna ddylanwad uniongyrchol ac effaith gadarnhaol.

*"Fydden ni ddim wedi bod yn sôn am ddatblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol heb Rio"*

*"Rhoddodd Johannesburg ddilysrwydd i'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy, paratôdd y ffordd ar gyfer y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd a Chymru o Blaid Affrica"*

*"Heb Rio fyddai gennyn ni ddim cynllun, dim ardoll ar fagiau plastig, ac ni fyddai'r Senedd wedi cael ei hadeiladu mewn ffordd gynaliadwy"*





## 7.5 PŴER UNIGOLION CYNGHREIRIAU NEWYDD AC ARLOESEDD

Mae yna enghreifftiau lle aeth clystyrau o unigolion ymhellach na dulliau busnes arferol i gydweithio o gwmpas themâu Rio a Johannesburg.

Helpodd Cyngor Caerffili, trwy ddefnyddio profiad Agenda 21 yng Ngwent, i lywio rôl y Cyngor newydd yn 1996, gan greu'r achos busnes dros Banel Cynaliadwyedd trawsbleidiol yn 2002, sy'n dathlu ei 10fed pen-blwydd yn 2012. Mae'r Panel hwn wedi rhoi cyfarwyddyd i Weithrediaeth y Cyngor dros gyfnod hir, sydd wedi cynnwys newid gwleidyddol, gyda chynghorwyr unigol o bleidiau gwahanol yn camu i swydd y Cadeirydd ond ar yr un pryd yn gefnogol i ddatblygu cynaliadwy.

Daeth 'Grŵp Morgannwg', cyfuniad o gyrff anllywodraethol, gweision sifil, cynghorwyr ac academyddion, â'r meddylfryd iawn ar yr adeg iawn i ddylanwadu ar y Cynulliad a Deddf Llywodraeth Cymru gan arwain at Adran 121 yn 1997.

Helpodd y Prosiect Ôl Troed Ecolegol rhwng 2003 a 2005, a drefnwyd gan WWF Cymru ac oedd yn cynnwys Athrofa Amgylcheddol Stockholm, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynghorau Caerdydd a Gwynedd a Phrifysgolion Caerdydd a Bangor, i sefydlu'r Ôl Troed fel un o ddangosyddion allweddol Llywodraeth Cymru.

Cyngor Abertawe, Cynnal Cymru a'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn gweithio ar y gynhadledd ar ôl Johannesburg 'Debate, Decisions, Directions' oedd yn cynnwys mwy na 300 o gynrychiolwyr, ac a ariannwyd gan nifer o bartneriaid, i ddehongli negeseuon Johannesburg, lansio Cynnal Cymru a deall y cyfyngiadau allweddol i gynnydd.

Cafodd y gwaith o ddatblygu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru ei ysgogi gan "gymheiriaid anghymharus" yr RSPB ac Oxfam Cymru yn cydweithio i ddylanwadu ar Estyn a'r Gweinidog Addysg ar y pryd, Jane Davidson.

Yn wir, ystyrir Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn llwyddiant gwirioneddol – mynd â'r meddylfryd o Rio i mewn i gymunedau. Mae hyn wedi arwain, yn ôl un Aelod Cynulliad, at,

*"Yn ddiau roedd Rio a Johannesburg wedi dylanwadu ar Rhodri Morgan (Prif Weinidog Cymru) a Jane Davidson (AC) ac roedden nhw wedi ymrwymo i roi rhywbeth ar waith yng Nghymru."*

*"newid dirfawr cymdeithasol a rhwng y cenedlaethau yn iard yr ysgol"*

**Cafodd ymroddiad a brwdfrydedd gwleidyddion yn y Cynulliad fel Sue Essex, Ron Davies, Rhodri Morgan a Jane Davidson eu nodi'n gyson yn y cyfweliadau ac yn y dogfennau.**

*"Bu Sue Essex yn ysgogydd allweddol trwy'r broses gyfan, a bu'n dadlau dros Agenda 21 yn ei swydd ar Gyngor Dinas Caerdydd, a daeth â hyn i'w swydd fel gweinidog llywodraeth leol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru"*

*"Yn ddiau roedd Rio a Johannesburg wedi dylanwadu ar Rhodri Morgan (Prif Weinidog Cymru) a Jane Davidson (AC) ac roedden nhw wedi ymrwymo i roi rhywbeth ar waith yng Nghymru"*

*"Ar ôl i Rhodri ddechrau ymwneud â'r maes cyflymodd pethau"*

*"Cafodd ei ymweliad â threflan effaith fawr arno. Sylweddolodd nad obsesiwn dosbarth canol yng Nghymru oedd datblygu cynaliadwy. Newidiwyd syniadau Rhodri gan ei ymweliad ag Affrica"*

*"Helpodd Rio a Johannesburg i atgyfnerthu barn Ron Davies ar gynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy – etifeddiaeth nad yw'n cael digon o glod amdani"*

Mae'r cyfweliadau'n awgrymu bod arweinyddiaeth y Cynulliad ac yn ddiweddarach Llywodraeth Cymru ym maes datblygu cynaliadwy wedi creu lle i weision sifil, awdurdodau lleol a chyrff anllywodraethol gydweithio ar fentrau, gan ddehongli cynigion yr Uwchgynadleddau a datblygu ymatebion.

Mae'n glir bod gweithio cydweithredol wedi digwydd o gwmpas yr Uwchgynadleddau, ac mai'r Uwchgynhadledd yn aml oedd y ffocws. Ond fe ymddengys fod yna rai digwyddiadau arwyddocaol sydd wedi llywio'r ymrwymiad yng Nghymru gan gynnwys: ymweliad Rhodri Morgan â Johannesburg; a rhan Jane Davidson yn agenda Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang cyn ac ar ôl Johannesburg yn ogystal â'i phresenoldeb yn y trafodaethau ar yr hinsawdd yn Poznan a Copenhagen. Mae'r cyfraniadau hyn wedi cyfleu negeseuon cryf i'r rheiny oedd yn ymwneud â'r maes – y gall Uwchgynadleddau rhyngwladol a'r hyn sy'n dod ohonynt fod yn bwysig.

*"Ers deng mlynedd mae Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â'r agenda datblygu cynaliadwy er bod eraill heb wneud"*

Mae ymrwymiad personol wedi bod gan y gwleidyddion hyn. Mae pethau da wedi digwydd o'r herwydd. Yn y cyfnod ar ôl Johannesburg, mae'n anodd pwyntio at arweinyddiaeth debyg ar lefel awdurdodau lleol ar yr agenda datblygu cynaliadwy rhyngwladol, nad yw ar y naill law, fel y dywedwyd eisoes, yn fawr o syndod o gofio canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru a ffactorau sbarduno eraill i lywodraeth leol, ond sydd, ar y llaw arall, yn syndod o gofio faint o ymgysylltu oedd cyn ac yn ystod y gynhadledd ar ôl Johannesburg, 'Debate, Decisions and Direction'.

Beth ddigwyddodd yn 2002? Oedd yr ysgogiad o Rio wedi chwythu ei blwc, neu oes yna rywbeth am y ffordd mae Uwchgynadleddau'n cael eu dehongli sy'n peri i lywodraeth leol ymgysylltu, neu yn yr achos hwn beidio ag ymgysylltu? Mae'r cyfweliadau'n awgrymu bod y sylw i Uwchgynhadledd Johannesburg a ysgogwyd gan y drafodaeth yn y Deyrnas Unedig oddi wrth Fwrdd Rheoli Llywodraeth Leol, gan CLlLC, y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ac eraill yn wrthgyferbyniad trawiadol â'r drafodaeth ynghylch Rio+20. Ymddengys mai ychydig iawn mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gweinidogion yn ymwneud ag agenda Rio +20. Ymddengys hefyd mai ychydig iawn o drafodaeth sydd yn Llywodraeth Cymru a CLlLC ynghylch Rio +20.

Mae'r sawl a holwyd yn awgrymu nifer o esboniadau posibl am y diffyg ymgysylltu gwleidyddol ar lefel leol ar yr agenda datblygu cynaliadwy 'rhyngwladol' yn awr:

- **mwy o bwyslais ar brosesau busnes a chanlyniadau lleol ym maes llywodraeth leol**
- **newid yng 'nghydwybod gymdeithasol' unigolion - bernir nad oes pleidleisiau i'w hennill o sôn am degwch byd-eang**
- **cyhoedd disgwylgar sy'n ystyried awdurdodau lleol yn ddarparwyr gwasanaethau yn hytrach nag arweinwyr cymunedol**
- **lleoliaeth newydd sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau**
- **ystyrir materion byd-eang yn foeth, yn ddewisol ac yn amherthnasol i gymunedau Cymru**

Mae'n bwysig ystyried y materion hyn yn y ffordd mae dyn yn cyfleu datblygu cynaliadwy ac yn bwrw ymlaen ag ef yng Nghymru.

*Ydyn ni'n apelio at werthoedd pobl er mwyn bwrw ymlaen â datblygu cynaliadwy yng Nghymru neu'n anelu at ddarpariaeth gwasanaethau gynaliadwy gynyddol? O ble fydd yr arweinyddiaeth yn dod i sicrhau newid trawsnewidiol ar lefel leol?*





## 7.6 YR AGENDA RYNGWLADOL A CHYNILDEB LLEOL

Ym mis Medi 2002, disgrifiodd y Western Mail yr Uwchgynhadledd yn Johannesburg fel carreg filltir yn natblygiad llywodraeth yng Nghymru – dyna oedd y tro cyntaf i Gymru gael ei chynrychioli ar lwyfan y byd gan wleidydd etholedig.

Awgrymodd y papur fod yr ymagwedd hon yn ychwanegu ***"dimensiwn rhyngwladol newydd i'r cyfansoddiad"***. (Western Mail, Medi 11 2002). Mae Alun Davies AC yn awgrymu yn y gwaith ymchwil hwn fod Johannesburg,

*"wedi rhoi Cymru ar y map rhyngwladol – gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru'n siarad ar ran Cymru ac o blaid Cymru"*

Mae cymryd rhan yn NRG4SD a thrafodaethau ar yr hinsawdd wedi galluogi Cymru i ddatblygu presenoldeb rhyngwladol ac enw am feddwl arloesol ym maes datblygu cynaliadwy.

Ugain mlynedd yn ddiweddarach mae'n glir bod themâu Rio +20 yn berthnasol i Gymru, ond o'i chymharu ag uwchgynadleddau blaenorol, nid yw Rio +20 wedi cael ei dehongli i gynulleidfaoedd yng Nghymru na'i gwneud yn berthnasol i broffesiynau a chymunedau. http://www.uncsd2012.org/rio20/index.html

*"Mae'r agenda cydweithredu rhyngwladol yn cael ei gwthio i'r ymylon, ac yn hytrach mae'r drafodaeth am gystadlu gyda gwledydd datblygol"*

Mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu bod uwchgynhadledd Johannesburg, mewn gwrthgyferbyniad, wedi'i chynnal mewn cyfnod o ddigonedd, yn arbennig i sector cyhoeddus Cymru, pan ellir dadlau ei bod yn gyfforddus i wleidyddion, gweision sifil, cynghorwyr a swyddogion cynghorau gael eu gweld yn gweithio ar agenda cynhadledd ryngwladol ac yn dod â hi i gyd-destun lleol. Nid yw hyn yn wir yn 2012.

Mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu rhai rhesymau ychwanegol am y diffyg proffil a chyfraniad 20 mlynedd ar ôl Rio:

- **mae ymateb Cymru'n aeddfed yn awr o'i gymharu â 1992 a 2002 ac yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion hyn o safbwynt nodweddiadol Gymreig. Mae hyn yn tanseilio perthnasedd Uwchgynhadledd ryngwladol ar ddatblygu cynaliadwy.**
- **mae digon o sylw'n cael ei greu i ddatblygu cynaliadwy trwy'r Bil Datblygu Cynaliadwy – mae'r agenda ryngwladol yn llai pwysig na 'rhoi trefn ar bethau gartref' .**
- **nid oes unrhyw fantais wleidyddol o gael eich cysylltu â materion rhyngwladol, yn enwedig ym maes llywodraeth leol – oes ots gan yr etholwyr lleol am ddatblygu cynaliadwy rhyngwladol?**
- **mae'n anodd i'r sector cyhoeddus fuddsoddi amser mewn gweithgarwch 'dymunol ond nid hanfodol' pan fo'r pwyslais ar wasanaethau rheng flaen**
- **mae llywodraeth leol yn canolbwyntio ar Ewrop - Twf Cynaliadwy Strategol Ewrop 2020 ac nid cyd-destunau ehangach**
- **mae gan Rio +20 broffil isel yn y cyfryngau sy'n golygu nad yw'n treiddio i ymwybyddiaeth gweithredwyr allweddol yn yr un ffordd â Johannesburg**
- **Mae grwpiau a fyddai o bosibl yn cydweithredu'n dod yn fwy ynysig ac maent yn llai parod i gysylltu â datblygu cynaliadwy oherwydd effeithiau cynildeb**
- **Mae datblygu cynaliadwy'n dod yn rhan o sefydliadau (prif egwyddor drefniadol) ar draul, o bosibl, golwg ehangach wedi'i lywio gan gyd-destunau rhyngwladol – canolbwyntio ar 'sut' ac nid 'pam'.**

*"ein dibyniaeth ni i gyd ar y blaned"*

Mae'r newid hwn ym mhroffil cyfarfodydd rhyngwladol yn codi cwestiwn sut y gallem wneud yr agenda ryngwladol yn berthnasol eto wrth i ni drafod y Bil Datblygu Cynaliadwy. Ai dim ond mater o fwy o drafodaethau, digwyddiadau a chynadleddau, dirprwyaeth weinidogol, cynnwys pobl ifanc, tynnu sylw at yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn dda yng Nghymru yw hyn? A fydd y negeseuon o Rio +20 yn ychwanegu gwerth a rhoi dilysrwydd i'r drafodaeth ynghylch y Bil Datblygu Cynaliadwy, gan ein hatgoffa am y cyd-destun ehangach a'r cyfrifoldebau byd-eang a goleddwyd gan Brundtland yn 1987 a Rio yn 1992? Ydyn ni wedi anghofio gwreiddiau datblygu cynaliadwy wrth i ni ddatblygu ein hymateb yng Nghymru? A fydd canlyniadau Rio+20 yn cael eu hystyried yn heriau y bydd yn rhaid i'r sector cyhoeddus eu cyflawni trwy'r dyletswyddau a roddir iddo yn y Bil Datblygu Cynaliadwy?

Yn ei gyfweliad gyda WWF Cymru tynnodd Rhodri Morgan sylw i berthnasedd y dimensiwn rhyngwladol wrth gofio ei ymweliadau â threflannau yn Ne Affrica a'r gefeillio a ddigwyddodd trwy Gymru o Blaid Affrica,

*"ein dibyniaeth ni i gyd ar y blaned"*

*Pa mor berthnasol yw'r wireb hon i Gymru yn y dyfodol?*

Mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu bod perygl, oni fydd yna ymyrraeth, y collir elfennau rhyngwladol tegwch byd-eang a therfynau ecolegol o Rio wrth i ddeddfwriaeth gael ei datblygu. *A fydd canolbwyntio ar gynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus trwy'r Bil Datblygu Cynaliadwy'n golygu y bydd hanfod gwerthoedd Rio'n cael ei golli yn y dyfodol?*





# 8. DYHEADAU AR GYFER YR 20 MLYNEDD NESAF

Mae'n glir o'r gwaith ymchwil bod llawer o'r weledigaeth, y cyffro, yr ysbrydoliaeth a'r oleuedigaeth o Rio wedi cael eu colli dros yr 20 mlynedd diwethaf.

I'r sawl a holwyd gennym, ymddengys fod 'prif ffrydio' yr agenda datblygu cynaliadwy wedi'i lleoleiddio a'i gwahanu o'r persbectif ehangach. Ydyn ni wedi cyrraedd 'canol oed' hunanfodlon ar daith datblygu cynaliadwy yng Nghymru? A fydd y Bil Datblygu Cynaliadwy'n adfywio cynaliadwyedd yng Nghymru?

Mae'r gwaith ymchwil wedi ceisio cael barn yr arweinwyr a'r ymarferwyr presennol a hefyd myfyrwyr â gradd ar rai o'r materion hyn. Mae'r cyntaf yn cynrychioli'r rhai presennol sydd, dros yr 20 mlynedd diwethaf ers Rio, wedi bod yn gweithio i fwrw ymlaen â datblygu cynaliadwy yn eu gwahanol feysydd; mae'r ail yn cynrychioli'r dyfodol, y genhedlaeth nesaf o wneuthurwyr polisi ac ymarferwyr, fydd yn gweithio trwy eu gyrfaoedd i wneud yr un peth.

## 8.1 DYHEADAU'R RHAI SY'N YMWNEUD Â'R MAES YN AWR

Mae'r sawl a holwyd er mwyn cyfrannu at yr adroddiad yn arweinwyr, arloeswyr, gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr sydd wedi ymwneud â datblygu cynaliadwy dros yr 20 mlynedd diwethaf.

*"Mae modd cyflawni newid trawsnewidiol yng Nghymru mewn cyfnod byr"*

Maent wedi ymroi i faterion ym maes datblygu cynaliadwy yng Nghymru ers amser maith ac maent mewn sefyllfa ddelfrydol i gynnig sylwadau ar beth, yn eu tyb hwy, yw'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y dyfodol. Mae eu barn yn bwysig gan y bydd llawer ohonynt yn llywio'r agenda datblygu cynaliadwy yng Nghymru dros y deng mlynedd nesaf a'r tu hwnt.

Er mwyn cael eu barn roedd y sgwrs yn canolbwyntio ar nifer o themâu neu ddewisiadau a fyddai'n blaenoriaethu camau gweithredu yn y dyfodol.

Gofynnwyd i'r sawl a holwyd nodi beth, yn eu tyb hwy, oedd y materion allweddol mae angen mynd i'r afael â hwy dros y 10 - 20 mlynedd nesaf. Yna gofynnwyd iddynt eu blaenoriaethu ac ychwanegu unrhyw flaenoriaethau a meddyliau ychwanegol.

O ddehongli'r deunydd a ddarparwyd gan y rhai a holwyd gennym, yr awgrym yw mai'r rhain yw'r flaenoriaeth: y brif egwyddor drefniadol; cydnerthedd systemau naturiol; yr elfen gymunedol; economi a chyllid cyhoeddus. Awgrymodd llawer o'r rhai a holwyd bod y rhain i gyd yn bwysig, ond bod rhai'n dibynnu ar eraill, ac felly wedi canolbwyntio ar y blaenoriaethau 'uwch' neu systemig - gan obeithio y byddai'r lleill yn dilyn. Mae'r meddylfryd hwn yn bwysig i'r ffordd y caiff y Bil Datblygu Cynaliadwy ei ddehongli. A fydd y Bil, y strategaeth neu gynllun fydd yn deillio ohono (os bydd un) yn helpu i ganfod y tir cyffredin, a sicrhau newid trawsnewidiol yn y deng mlynedd nesaf i fynd i'r afael â'r heriau heddiw ac yn y dyfodol o ran iechyd, economi, tlodi, prinder adnodau a Chymru mae'r newid yn yr hinsawdd wedi effeithio arni?

Mae ymatebion y sawl a holwyd gennym yn datgelu tri mater eglur y bydd angen eu hystyried wrth fwrw ymlaen â datblygu cynaliadwy yng Nghymru:

a. nid oedd cefnogaeth aruthrol i unrhyw un flaenoriaeth na hyd yn oed set o flaenoriaethau. Mae hyn yn awgrymu, er bod gan Lywodraeth Cymru a'i rhagflaenwyr gyfrifoldeb ers ugain mlynedd am hyrwyddo datblygu cynaliadwy, nad oes, er mawr syndod, **lawer o dir cyffredin ar ei agenda yn y dyfodol**.

b. roedd y sawl a holwyd yn meddwl bod modd gwireddu'r themâu hyn yn y 10 mlynedd nesaf, o gael yr ysgogiad gwleidyddol ac arweinyddol iawn - h.y. **mae modd cyflawni newid trawsnewidiol yng Nghymru mewn cyfnod byr**.

c. mae yna **ymdeimlad amlwg bod angen brysio**; cred gref bod yn rhaid cymryd **camau sylweddol** dros y deng mlynedd nesaf os yw Cymru i fod yn wlad fwy cynaliadwy.

Mynegodd nifer o'r rhai a holwyd gennym bryder bod yr hyn maent hwy'n ei ystyried yn ystyr greiddiol datblygu cynaliadwy mewn perygl o gael ei golli,

*"Nid yw'r naratif ynghylch datblygu cynaliadwy'n ymdrin â newid sylweddol na materion anodd, na maint y newid, ond ag ymaddasu …Mae datblygu cynaliadwy'n cael ei ail-lunio o gwmpas cystadleurwydd"*

*"mae lles yn ymwneud â materion cymdeithasol ac economaidd, mae'n ailddiffinio datblygu cynaliadwy er mwyn gwthio'r amgylchedd i'r cyrion …..gan liwio'r sgwrs"*

# 8.2 Y GENHEDLAETH NESAF O BENDERFYNWYR

Yn ogystal ag edrych ar farn y genhedlaeth bresennol o arweinwyr ac ymarferwyr datblygu cynaliadwy yng Nghymru, mae'r gwaith ymchwil hefyd wedi ceisio cael barn rhai o'n darpar arweinwyr am eu gobeithion a'u dyheadau ar gyfer Cymru fwy cynaliadwy.

**Gofynnwyd i nifer fach o fyfyrwyr â gradd sy'n arbenigo mewn cynaliadwyedd am eu barn ar: ystyr datblygu cynaliadwy, yr ymagwedd at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru, rôl y partneriaethau wrth fynd i'r afael â heriau allweddol ym maes datblygu cynaliadwy i Gymru, a dyfodol agenda datblygu cynaliadwy. Plant bach oedd llawer o'r myfyrwyr hyn yn 1992, hwy oedd y genhedlaeth newydd yr oedd Uwchgynhadledd y Ddaear yn ceisio ei gwasanaethu.**

Mae'r dyfyniadau canlynol yn adlewyrchu'r trafodaethau am ystyr.

*"Mae datblygu cynaliadwy'n fater o gael cydbwysedd rhwng y tair elfen (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol"*

*"Ystyr datblygu cynaliadwy yw sefydlogrwydd, cydbwysedd, synnwyr cyffredin, gofal, meddwl am y tymor hir, cyfrifoldeb, rhoi sylw i'r amgylchedd wrth wneud penderfyniadau pob dydd"*

*"does byth cydbwysedd rhwng tair rhan datblygu cynaliadwy – natur sydd bob amser ar ei cholled"*

Roedd amrywiaeth barn amlwg ynghylch a oes gan Gymru ei hymagwedd ei hun at ddatblygu cynaliadwy. Roedd pawb yn cydnabod y ddyletswydd datblygu cynaliadwy a'i harwyddocâd posibl o ran hybu gwlad fwy cynaliadwy. Ar yr ochr gadarnhaol, roedd yna sylwadau ffafriol am ailgylchu a mentrau bwyd lleol. Ar yr ochr negyddol, roedd yna gred,

*"na fyddai [datblygu cynaliadwy] yn cael ei hyrwyddo go iawn pe bai'n gwrthdaro â buddiannau economaidd"*

Yn fwy pwerus byth, roedd un myfyriwr yn dadlau bod

*"Llywodraeth Cymru'n trin yr amgylchedd fel adnodd, ased cystadleuol ym maes datblygu economaidd. Does dim ymrwymiad o ddifrif i'r amgylchedd y tu hwnt i'r hyn mae buddion economaidd yn galw amdano"*

*"Llywodraeth Cymru'n trin yr amgylchedd fel adnodd, ased cystadleuol ym maes datblygu economaidd"*

Yn nhermau ymwybyddiaeth a phroffil mae'r sylw canlynol yn awgrymu bod gennym dipyn o ffordd i fynd i ymgysylltu a hybu newid,

*"Does dim syniad gan y dyn cyffredin beth yw datblygu cynaliadwy. Yn fy marn i does gan Gymru ddim mo'i hymagwedd ei hun at ddatblygu cynaliadwy"*

Roedd y myfyrwyr yn barnu bod gweithio mewn partneriaeth yn flaenoriaeth ar lawer o wahanol lefelau

*"Mae partneriaethau'n hanfodol. Er mwyn cyflawni nodau datblygu cynaliadwy, mae angen i lywodraethau, cyrff anllywodraethol, busnesau, y gymuned ac unigolion i gyd fod â rhan"*

*"mae cydweithredu'n bwysig er mwyn dwyn ynghyd wybodaeth lleygwyr a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd"*





*"trwy lygaid yr ifanc a'r gwybodus, ymddengys fod gwireddu gwlad gynaliadwy mor bell i ffwrdd ag erioed"*

Er hynny, roedd yna leisiau anghytûn oedd yn teimlo ei bod yn rhy hawdd pwysleisio rhinweddau gweithio mewn partneriaeth a pheidio â rhoi digon o sylw i

*"gael y cydbwysedd iawn rhwng gwarchod yr amgylchedd, datblygu'r economi a lliniaru problemau cymdeithasol".*

O ran sut maent yn dychmygu y byddai Cymru fwy cynaliadwy'n edrych, ni fyddai'n wlad wahanol iawn i'r hyn ydyw heddiw, ond byddai'n wlad sy'n llawer mwy ecolegol wybodus.

Er enghraifft, byddai ganddi

*"boblogaeth fwy hyddysg sy'n gallu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu harferion o ran defnyddiaeth'; byddai'n cynnwys 'cymunedau hunangynhaliol'; byddem 'ar y ffordd i 100% ynni adnewyddadwy' a dim gwastraff; byddem yn byw ac yn gweithio mewn adeiladau ynni effeithlon; a 'gwell trafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau beicio a cherdded i leihau'r defnydd o geir"*

Ydyn ni wir wedi symud ymlaen o ran ein hymagweddau yn yr 20 mlynedd diwethaf? Ni fyddai'r farn hon oddi wrth genhedlaeth newydd wedi edrych yn anghyfarwydd yn 1992. Er bod gennym fframwaith mwy aeddfed, o bosibl, i ddangos bod ein hymagwedd at ddatblygu cynaliadwy wedi newid - trwy lygaid yr ifanc a'r gwybodus, ymddengys fod gwireddu gwlad gynaliadwy mor bell i ffwrdd ag erioed.

Mae WWF Cymru wedi cyfweld a nifer o bobl ifanc yng Nghymru a oedd wedi ymweld a'r Uwchgynhadledd yn Johannesburg
**www.wwf.org.uk/cymru**



© Chris Marais / WWF-Canon

WWF yn cyflwyno glôb y Blaned i Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Kofi ANNAN, yn Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy yn Johannesburg.



© Ian Homer Photography / WWF-Cymru.



© Ian Homer Photography / WWF-Cymru.





## 8.3 NARATIFAU YN Y DYFODOL AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY

Mae gan y rhai a holwyd gennym gredoau cymhleth a soffistigedig am ddatblygu cynaliadwy. Drwy ddadansoddi eu hymatebion rydym wedi gallu tynnu ynghyd nifer fach o naratifau mwyaf blaenllaw.

*"Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yw'r tro cyntaf rydyn ni wedi mynd i'r afael â'r materion o bwys – cydnabod bod gennyn ni broblemau"*

Mae'n bwysig cydnabod bod y naratifau hyn wedi cael eu symleiddio, a hynny'n anochel, felly nid ydynt yn cynrychioli barn unrhyw unigolyn, ond maent yn helpu i egluro blaenoriaethau polisi sy'n dod i'r amlwg. Mae'r naratifau hyn yn ffyrdd o gyflwyno dyheadau ar gyfer y dyfodol a sut yr ydym yn ymdopi'n llwyddiannus â heriau datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Mae'n bosibl canfod tri model 'i ymgyrraedd atynt' ym maes datblygu cynaliadwy, sef 'Cynaliadwyedd er mwyn goroesi', 'Cynaliadwyedd fel llwybr datblygu newydd' a 'Cynaliadwyedd fel ffordd o gyflenwi gwasanaethau'. Nid yw'r naill naratif yn cau allan y lleill, mae yna dir cyffredin rhyngddynt, ond mae pob un yn tynnu sylw at bersbectif penodol ar ddatblygu cynaliadwy. Maent yn werthfawr oherwydd y gellir eu defnyddio'n benodol i fyfyrio ynglŷn â pha lwybr datblygu mae'r Bil Datblygu Cynaliadwy yn fwyaf tebygol o'n hanfon ar hyd-ddo, ac yn fwy cyffredinol am yr agenda yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

### Cynaliadwyedd er mwyn goroesi

Mae'r naratif hwn yn rhoi pwyslais ar derfynau ecolegol ar ddatblygiad a thwf economaidd, gan ganolbwyntio ar derfynau'r blaned; cynhwysedd cludo'r ddaear; y ffordd y defnyddir adnoddau; defnyddio ôl troed ecolegol; bwyd, dŵr, ynni, priddoedd, bioamrywiaeth a'u heffeithiau ar degwch a thlodi. Mae'r rhain yn systemau rydyn ni'n dibynnu arnynt nad ydynt, yn aml, yn cael eu hystyried yn ein llwybr datblygiad, ond a fyddai'n cael effaith ddifrifol ar y ddynoliaeth pe baent yn methu. Yma, cydnabyddir bod yr agenda datblygu cynaliadwy'n ymwneud â therfynau adnoddau a chynnal ecosystemau. Mynegodd y sawl a holwyd eu meddyliau fel a ganlyn:

*"mae angen i ni lwyddo i fynd i'r afael â'r pethau sylfaenol"*

*"Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yw'r tro cyntaf rydyn ni wedi mynd i'r afael â'r materion o bwys – cydnabod bod gennyn ni broblemau"*

*"rydyn ni angen twf economaidd a chymdeithasol o fewn cyfyngiadau amgylcheddol"*

Yn y naratif hwn, er y gwelir y dyfodol yn fygythiol, nid yw hyn yn cael ei gydblethu â gwleidyddiaeth pesimistiaeth. Mae'r rhai a holwyd yn credu bod modd datrys problemau cynilo adnoddau gydag effeithiau cadarnhaol ar y ddynoliaeth.

Mae ein grŵp ni o bobl ifanc yn coleddu naratif cynaliadwyedd er mwyn goroesi ac ychydig o ddiddordeb maent yn ei ddangos mewn naratifau eraill.

### Cynaliadwyedd fel llwybr datblygu newydd

Mae'r naratif hwn yn canolbwyntio ar ein hymagwedd at ddatblygiadau ffisegol, cyllid, effeithlonrwydd adnoddau, economi, seilwaith, tirwedd, adfywio a rhan cymunedau mewn datblygu cynaliadwy. O'r agwedd 'feddalach' o rymuso cymunedau a goleddwyd gan Agenda 21 Leol, i ymagwedd mwy digyfaddawd cyllid a chostau oes gyfan ar gyfer datblygiadau ffisegol. Canolbwyntir ar ganlyniadau ar gyfer tair colofn cynaliadwyedd: amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Y gobaith yma yw, trwy wneud datblygu cynaliadwy'n brif egwyddor drefniadol, y bydd datblygu cynaliadwy yn yr holl ystyron a nodir uchod yn dilyn yn naturiol. Roedd yna ymdeimlad cryf o'r cyfweliadau bod angen i'r ymagwedd hon herio patrymau presennol datblygiad a'r ymagweddau traddodiadol ato, a hynny'n effeithiol. Dywedodd y rhai a holwyd gennym:

*"Defnyddio cynaliadwy yw'r ysgogydd mawr, yr un i ganolbwyntio arno. Does dim diben gwario biliynau ar weithgareddau anghynaliadwy"*

*"mae angen i bob swydd helpu gyda thwf gwyrddach. Mae angen talu pobl i wneud rhywbeth rhagweithiol neu i roi'r gorau i arferion anghynaliadwy"*

*"Mae'r rhethreg sy'n dod o Gymru wedi bod yn gryf ond bu diffyg ysgogwyr dros yr economi"*

*"mae Cymru'n cyflawni canlyniadau cynaliadwy trwy fod â gwasanaethau cynaliadwy"*

Yn y naratif hwn, *"Mae cymunedau'n gwneud pethau, dyw pethau ddim yn cael eu gwneud iddyn nhw."* Mae hefyd ymdeimlad, er bod modd cyflawni'r uchod, fod y systemau rydym yn cael ein gorfodi i weithio gyda hwy yng Nghymru'n dal i'n hanfon i lawr llwybrau datblygu anghynaliadwy, a hynny 20 mlynedd ar ôl Rio.

Mae llawer o ymarferwyr o'r farn bod modd cyflawni eu fersiwn hwy o'r naratif hwn os ceir arweinyddiaeth effeithiol a chydlyniaeth rhwng asiantaethau allweddol.

**Cynaliadwyedd fel ffordd o gyflenwi gwasanaethau**

Yn y naratif hwn, mae Cymru'n cyflawni canlyniadau cynaliadwy trwy fod â gwasanaethau cynaliadwy. Mae'r brif egwyddor drefniadol a'r Bil Datblygu Cynaliadwy yn darparu'r fframwaith i gyflenwi gwasanaethau mwy cynaliadwy i bobl a'r amgylchedd maent yn dibynnu arno. Mae yna effaith ddomino ar wneud penderfyniadau, cyllid, cadwyni cyflenwi, caffael ac adfywio, sydd i gyd yn gwella lles pobl. Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus yn datblygu dros amser i ddod yn fwy cynaliadwy yn y ffordd maent yn cyflenwi ar lawr gwlad. Mae gweithio cydweithredol yn torri trwy furiau seilos sydd wedi cael eu hamddiffyn ers blynyddoedd ym maes polisi a chyflenwi cyhoeddus yng Nghymru. Yn y naratif hwn, mae'n dal i fod yn anodd dylanwadu ar newid ymddygiad ar lefel y gymuned, ond mae mwy o atebolrwydd gan y sector cyhoeddus ar sut mae'n cynorthwyo neu'n llesteirio datblygu cynaliadwy yn yr hyn mae'n ei wneud.

Fodd bynnag, roedd yr ymarferwyr a'r bobl ifanc yn cwestiynu i ba raddau y byddai'r Bil yn ysgogi'r model hwn o gyflenwi gwasanaethau a chanlyniadau integredig,

*"mae yna gydnabyddiaeth bod y 10 mlynedd gyntaf wedi peidio â chyrraedd y nod, mae'r Bil yn gydnabyddiaeth o wendid"*

*"Fydd Biliau ddim yn newid ymddygiad"*

*"hyd yn oed ar ôl y Bil, bydd datblygu cynaliadwy angen gwaith cyfleu ac ymgysylltu di-baid ar lefel fwy ymarferol – mae angen ei ddehongli i gynulleidfaoedd lleol a'r agenda ryngwladol hefyd"*

*"yr her yn y dyfodol o hyd yw dod allan o seilos – mae yna enghreifftiau o seilos yn dal i sefyll yn y ffordd – fel y ffordd ddigyswllt mae'r Bil wedi cael ei ddatblygu yn y rhaglen lywodraethu"*

**Pa naratif sy'n addas?**

Mae'r naratifau hyn yn cynrychioli tair 'gweledigaeth' wahanol ond cysylltiedig o lwybr datblygu cynaliadwy i Gymru, ac maent yn gredadwy. Maent yn cynnig dewisiadau, yn nhermau uchelgais, maint, dylanwad a chyfeiriad.

Mae'n amlwg bod elfennau cydategol o orgyffwrdd rhwng y naratifau, ond serch hynny mae'r graddau y maent yn cynnig dewisiadau hefyd yn awgrymu elfen o gau ei gilydd allan. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd bydd y naratifau hyn yn helpu i lywio dehongliadau o'r Bil Datblygu Cynaliadwy. Mae rôl y Bil Datblygu Cynaliadwy'n hanfodol wrth osod llwybr datblygu cynaliadwy am yr 20 mlynedd nesaf a'r tu hwnt, felly y cwestiynau allweddol yw:

Pa un o'r naratifau hyn mae'r Bil yn ei adlewyrchu?

Sut allai'r themâu yn y Bil lywio a dylanwadu ar y naratifau hyn?

Pa agwedd ar y naratifau hyn na fydd y Bil yn dylanwadu arni?

Beth fydd angen iddo newid, o bosibl, yn yr ymagwedd bresennol at y Bil er mwyn gwireddu ein dyheadau?

Ymhlyg yn y naratifau datblygu cynaliadwy uchod mae ymdeimlad byw o werthoedd moesol. Yn wir, yn ei hanfod mae datblygu cynaliadwy'n datgan achos moesol mynediad a thegwch dros werthoedd culach ac iddynt sail economaidd fel effeithlonrwydd. Mae mynediad yn pwysleisio pryderon ynghylch pwy sy'n cael y cyfle i gael budd o adnoddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, sut maent yn cael mynediad iddynt (e.e. trwy'r farchnad neu drwy ddarpariaeth gyhoeddus), a phryd (y genhedlaeth bresennol ynteu genedlaethau'r dyfodol). Mae a wnelo tegwch â defnyddio asedau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mewn ffordd deg.

Un her i'r Bil Datblygu Cynaliadwy a'i gefnogwyr fydd dweud yn blaen beth yw'r gwerthoedd sy'n sail i'w gweledigaeth o ddatblygu cynaliadwy. Un farn realistig fyddai, o bosibl, mai'r gwerth creiddiol presennol wrth drafod deddfwriaeth datblygu cynaliadwy yw effeithlonrwydd a chyflenwi gwasanaethau mewn ffordd effeithiol, wedi'i alinio'n agos â'r agenda economaidd. **Nid yw'r fersiwn hon o ddatblygu cynaliadwy'n ffyddlon i etifeddiaeth Rio a gwerthoedd tegwch byd-eang a byw o fewn terfynau amgylcheddol sydd wedi cael eu trafod yn yr uwchgynadleddau ers hynny – gwerthoedd yr oedd llawer o'r bobl a holwyd yn eu coleddu'n gryf.**





# 9. BETH ALL UWCHGYNHADLEDD Y DDAEAR EI WNEUD DROS GYMRU?

Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi datgelu darlun cyfoethog o ddylanwad Uwchgynadleddau Rio a Johannesburg ar Gymru, dylanwad sydd wedi para dros ugain mlynedd.

Mae yna nifer o ganfyddiadau allweddol sy'n cynnig gwers berthnasol i Gymru wrth iddi symud ymlaen i ddeddfu ar gyfer datblygu cynaliadwy ac i gynllunio yn y dyfodol; nodir y rhain yn y Crynodeb Gweithredol.

Mae'r darn hwn o waith ymchwil wedi gwneud cyfnod o 20 mlynedd, a chyflawniadau, methiannau ac etifeddiaeth Rio'n fwy diriaethol. Beth am 20 mlynedd yn y dyfodol yn 2032? Mae amcanestyniadau economaidd a geowleidydol ac o'r boblogaeth a'r hinsawdd yn awgrymu y byddwn ni a'n disgynyddion yn byw mewn byd gwahanol iawn. Beth fydd lle Cymru yn y dyfodol hwn, lle bydd elfennau allanol byd-eang yn effeithio'n anochel ar Gymru, ar ei chymunedau ac ar les unigolion? A fydd ymchwilwyr y dyfodol yn beirniadu Cymru am fod yn fewnblyg yn ei hymagwedd at ddatblygu cynaliadwy a pheidio ag ystyried y darlun rhyngwladol? A fydd y cyfnod hyd at 2032 yn cael ei ystyried yn gyfle a gollwyd, pan na chafodd agenda drawsnewidiol ei gweithredu, er y cafwyd y cyfle i ddatblygu deddfwriaeth arloesol? Neu a fydd Cymru'n cael ei llongyfarch am fod yn allblyg, gyda gwerthoedd byd-eang yn ogystal â gwerthoedd lleol yn greiddiol i'r ffordd mae'n cael ei llywodraethu, gan ddangos i'r byd sut y gall cymdeithas fyw'n fwy cynaliadwy? Amser a ddengys.

# ATODIAD - Y TÎM YMCHWIL

Awduron yr adroddiad hwn yw: **Dr. Alan Netherwood a Dr. Andrew Flynn**

Mae **Dr. Alan Netherwood** wedi gweithio i Gyngor Caerdydd, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Prifysgol Caerdydd a chyrff gwirfoddol ym meysydd datblygu cynaliadwy a'r newid yn yr hinsawdd. Bellach mae'n rhedeg ei gwmni ei hun, Netherwood Sustainable Futures, gan weithio gydag amrywiaeth o gleientiaid ar fentrau cynaliadwyedd a newid hinsawdd. alan.netherwood@gmail.com

Mae **Dr. Andrew Flynn** yn Ddarlithydd ac ymchwilydd yn yr Ysgol Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae wedi bod yn astudio'r ffordd y mae Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru wedi cael ei gweithredu ers y dechrau, gyda chaniatâd Prif Weinidogion Cymru, ac wedi cyhoeddi gwaith ar ran y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy a WWF Cymru. FlynnAC@cardiff.ac.uk

Gwnaethpwyd gwaith ymchwil hefyd gan: **Fay Blair a Nichola James**

Mae **Fay Blair** yn ymarferydd cynaliadwyedd ag 20 mlynedd a rhagor o brofiad. Fel Cydgysylltydd Polisi Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol gydag LGIB (2001-2002), gweithredodd ar ran Pwyllgorau Paratoadol Llywodraeth Leol Cymru a Lloegr ar gyfer Uwchgynhadledd Fyd y Cenhedloedd Unedig a'r Uwchgynhadledd wedi hynny a gynhaliwyd yn Johannesburg. Darparodd Fay ddirnadaeth ryngwladol ar yr Uwchgynadleddau.

Mae **Nichola James** wedi gweithio i WWF UK gan greu strategaethau cynaliadwyedd gyda chwmnïau fel Vodafone, Vodacom, Canon ac MBNA. I WWF Cymru hi oedd y prif berson cyswllt gyda gweision sifil yng Nghynulliad Cymru, ei asiantaethau a'i bartneriaid. Bellach mae Nichola yn gweithio ar ei liwt ei hun a darparodd ymchwil ar storïau yn y cyfryngau ynghylch yr Uwchgynadleddau.


# WWF CYMRU PRIF DIGWYDDIADAU

100%

WEDI'I AILGYLCHU

**1992 UWCHGYNHADLEDD Y DDAEAR YN RIO:**
LANSIO AGENDA 21 A DATBLYGU CYNALIADWY I YMWYBYDDIAETH CYMRU

**2000**
SEFYDLU WWF CYMRU, SY'N DECHRAU GWEITHIO YNG NGHYMRU



**2002**
RHODRI MORGAN, BRIF WEINIDOG CYMRU, YN MYNYCHU U CHGYNHADLEDD Y DDAEAR

**2002**
'HYRWYDDWR DAEAR' WWF, RHYS DAVIES, YSGOL GYFUN LLANHARI, YN CYNRYCHIOLI CYMRU YN UWCHGYNHADLEDD Y DDAEAR

WWF

BETH ALL UWCHGYNHADLEDD Y DDAEAR EI WNEUD DROS GYMRU?

**Pam ein bod ni yma.**
Rydym ni'n creu atebion i'r heriau cadwraethol mwyaf difrifol y mae ein planed yn eu hwynebu, gan helpu pobl a natur i ffynnu.

wwf.org.uk/cymru

Eryri, Gogledd Cymru @istock.com

WWF-UK registered charity number 1081247 and registered in Scotland number SC039593. A company limited by guarantee number 4016725 © 1986 Panda symbol and ® "WWF" Registered Trademark of WWF – World Wide Fund For Nature (Formerly World Wildlife Fund), WWF-UK, Panda House, Weyside Park, Godalming, Surrey GU7 1XR, T: +44 (0)1483 426333, E: supportercare@wwf.org.uk, wwf.org.uk